



Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 4YDD HYDREF, 2018**

**\* NODER \***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**[https://gwynedd.public-i.tv/core//cy\\_GB/portal/home](https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home)**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**[eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru](mailto:eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru)**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 26 Medi 2018)

**Dilwyn Williams  
Prif Weithredwr**

**[www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)**

**DYDD MERCHER, 26 MEDI 2018**

Annwyl Gyngorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 4 HYDREF 2018**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h.**, **DYDD IAU, 4YDD HYDREF, 2018 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON, GWYNEDD. LL55 1SH**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig  
Annibynnol – Siambr Hywel Dda  
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai  
Annibynnol Unedig Gwynedd - Ystafell Daron

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. COFNODION

7 - 14

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2018 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

## 5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd.

## 6. MATERION BRYD

Nodir unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 7. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad.

## 8. AWDURDOD TAN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU: DIWEDDARIAD ARIANNOL AC YMGYNGHORIAD 2019/20

Derbyn cyflwyniad gan Brif Swyddog Tân, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## 9. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG YNG NGWYNEDD 2018-23

15 - 45

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol (ynghlwm).

## 10. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2017/18

46 - 74

Cyflwyno adroddiad yr Arweinydd (ynghlwm).

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2017/18** 75 - 88

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (ynghlwm).

**12. PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU AELODAU SWYDDOGION** 89 - 99

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol (ynghlwm).

**13. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD CATRIN WAGER**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi o dan Adran 4.20 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cyngorydd Catrin Wager yn cynnig fel a ganlyn:-

**Mae'r Cyngor hwn yn nodi:**

- Yn ôl y Cyfrifiad yn 2011, roedd 3,724 o breswylwyr Gwynedd (neu 3.1% o'r boblogaeth) wedi cael eu geni tu allan i'r DU. Mewn rhai ardaloedd ym Mangor, cododd hyn i 20.9% o'r boblogaeth.
- Mae ychydig o dan 30,000 o bobl yn cael eu cadw'n gaeth yn y DU bob blwyddyn dan gyfreithiau mewnfudo; gydag oddeutu 3,000 wedi'u cadw'n gaeth ar unrhyw adeg.
- Y DU yw'r unig wlad yng Ngorllewin Ewrop sy'n cadw unigolion yn gaeth am gyfnod amhenodol dan bwerau mewnfudo.
- Ar gyfartaledd, mae'n costio mwy na £31,000 i gadw person yn gaeth am flwyddyn. Roedd cyfanswm y gost flynyddol yn £164.4 miliwn yn 2013/14. Rhwng 2011-2014, gwariodd y llywodraeth £13.8 miliwn ar iawndal i bobl a gadwyd yn gaeth yn anghyfreithlon.
- Ar hyn o bryd, ceir 10 canolfan gadw yn y DU, sy'n cynnwys cyfleusterau cadw pobl yn gaeth am dymor byr.
- Bydd dros 50% o'r rheiny a gedwir yn gaeth mewn canolfan gadw mewnfudo yn cael eu rhyddhau i'r gymuned yn y DU.
- Mae mewnfudwyr yn cael eu cadw'n gaeth er dibenion gweinyddol.
- 2016 Fel rhan o Adolygiad Shaw, cynhaliodd yr Athro Mary Bosworth adolygiad systematig o astudiaethau oedd yn ymchwilio i'r effaith ar iechyd meddwl y bobl a gadwyd yn gaeth. Dangosodd yr astudiaethau mai 30 diwrnod oedd y trobwynt o ran effaith negyddol ar iechyd meddwl.
- Gorffennaf 2018 Paratôdd Stephen Shaw ei Asesiad o gamau gweithredu'r llywodraeth yn dilyn ei Adroddiad yn 2016. Ynddo, mae'n pwysleisio'r angen brys i **ddiwygio'r**

**modd y cedwir pobl yn gaeth.**

**Mae'r Cyngor hwn yn nodi ymhellach:**

- Mawrth 2015 Argymhellodd ymchwiliad ar y cyd gan y GSTB ar Ffoaduriaid a'r GSTB ar Fewnfudo i'r defnydd o Gadw Mewnfudwyr yn Gaeth yn y DU (yr ymchwiliad seneddol cyntaf erioed i'r defnydd o gadw mewnfudwyr yn gaeth yn y DU) fod y llywodraeth yn cyflwyno uchafswm terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer yr amser y gellir cadw unrhyw fewnfudwr yn gaeth.
- Mawrth 2016 Pleidleisiodd Tŷ'r Arglwyddi i gyflwyno terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer cadw mewnfudwyr yn gaeth ond nid oedd hyn yn cynnwys pobl gyda dedfryd o garchar o 12 mis neu fwy.
- 2016-2017 Mae Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Carchardai EM 2017 yn datgan "bod angen brys o hyd am uchafswm terfyn amser ar gyfer cadw mewnfudwyr yn gaeth"

**Mae'r Cyngor hwn yn credu:**

- Y dylai llywodraeth San Steffan ddod â'r arfer o gadw mewnfudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn gaeth am gyfnod amhenodol i ben.
- Y dylid cyflwyno terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer cadw pobl yn gaeth dan bwerau mewnfudo.
- Bod yr angen am Ddeddf Mewnfudo newydd fel rhan o weithdrefnau Brexit yn rhoi'r cyfle i gyflwyno terfyn amser.

**Mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:**

- Ysgrifennu at y Swyddfa Gartref yn nodi ein bod ni, fel Cyngor Gwynedd, yn dymuno gweld diwedd ar fewnfudwyr yn cael eu cadw am gyfnodau amhenodol dan bwerau mewnfudo, ac yn gofyn i derfyn amser o 28 diwrnod gael ei gyflwyno fel rhan o'r Ddeddf Mewnfudo newydd.



---

## Y CYNGOR DYDD IAU, 12 GORFFENNAF 2018

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd);  
Y Cynghorydd Edgar Wyn Owen (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Menna Baines, Freya Hannah Bentham, Dylan Bullard, Stephen Churchman, Steve Collings, Annwen Daniels, R.Glyn Daniels, Anwen Davies, Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Peter Antony Garlick, Simon Glyn, Gareth Wyn Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Nia Jeffreys, Peredur Jenkins, Aeron M.Jones, Aled Wyn Jones, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Charles W.Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric Merfyn Jones, Huw Wyn Jones, Keith Jones, Kevin Morris Jones, Linda A.W.Jones, Sion Wyn Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Lloyd, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Dafydd Owen, Dewi Owen, W.Roy Owen, Jason Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Peter Read, Dewi Wyn Roberts, Elfed P.Roberts, Gareth A.Roberts, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Mike Stevens, Ioan Thomas, Cemlyn Williams, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol / Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd), Rhun ap Ieth (Uwch Gyfreithiwr / Dirprwy Swyddog Monitro), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth), Llinos Edwards (Uwch Swyddog Gweithredol), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor), Gareth James (Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

### 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Aled Evans, R.Medwyn Hughes, Sian Wyn Hughes, Judith Humphreys, Eryl Jones-Williams, Linda Morgan, John Pughe Roberts, W.Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Hefin Underwood a Catrin Wager.

### 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Mai, 2018 fel rhai cywir.

### 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts fuddiant personol yn eitem 11 ar y rhaglen – Adroddiad Blynyddol Craffu 2017/18, oherwydd ei fod yn Is-gadeirydd y Cyngor lechyd Cymuned a bod y mater yn ymwneud ag iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog wedi ei drafod yn y Cyngor hwnnw.

Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

### 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Llongyfarchwyd:-

- Gwenan Ellis Jones, Cydlynnydd Siarter Iaith Gwynedd a Môn ar ddod yn fuddugol yn y categori 'Defnyddio'r Gymraeg mewn ffordd sy'n ysbrydoli' yng Ngwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru yn ddiweddar. Enillodd Gwenan y wobwr am ei chyfraniad sylweddol wrth lunio a datblygu'r Siarter Iaith a gafodd ei lansio yng Ngwynedd yn 2011.
- Prosiect Ieuenctid Derwen, sy'n cynnig gweithgareddau amrywiol i bobl ifanc gydag anableddau yng Ngwynedd, ar ddod i'r brig yng ngwobr 'Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth' yng Ngwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid Cymru 2018 yn ddiweddar.

## 5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL

Dim i'w nodi.

## 6. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 7. CWESTIYNAU

*(Dosbarthwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau i'r aelodau ymlaen llaw.)*

### (1) Cwestiwn gan y Cyngorydd Sion Jones

"A oes arian yn weddill gan yr Adran Gynllunio wrth weithredu swm cymudol ar ddatblygwyr?"

#### **Ateb gan yr Aelod Cabinet Cynllunio, y Cyngorydd Dafydd Meurig**

"Yn fras, y cwbl ydi hyn yw cyfraniadau gan ddatblygwyr mewn perthynas â datblygiadau mawr lle mae yna gyfraniad tuag at welliannau yn lleol. Er enghraifft, mae yna £1.2m o gyfraniad gan gwmni Redrow yn ymwneud â stad dai mawr ym Mangor ac mae'r rhan fwyaf o hwnnw yn mynd tuag at addysg yn y ddinas. Felly, i ateb y cwestiwn, 'rwy'n credu bod yna tua £1.95m o gyfraniadau wedi dod i mewn dros y blynyddoedd diwethaf yn gyfan gwbl, yn cynnwys yr arian Redrow. Wedyn, mae yna rywffaint o arian heb ei wario, ond mae hwnnw wedi ei glustnodi a bydd yn cael ei wario'n bwrsasol ac mae'r holl drefn, wrth gwrs, yn cael ei reoli gan gytundebau 106."

#### **Cwestiwn Atodol gan y Cyngorydd Sion Jones**

"Ydi'r Aelod yn cytuno gyda mi bod y Cynllun Datblygu Lleol yn gyfle i osod mwy o symiau cymudol ar ddatblygiadau ar gyfer rhoi'n ôl i'r cymunedau ar draws Gwynedd?"

#### **Ateb gan yr Aelod Cabinet Cynllunio, y Cyngorydd Dafydd Meurig**

"Nid yw'n bosib' defnyddio'r symiau yma ar gyfer unrhyw beth heblaw am rywbeth sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio. Dyna ydi ei bwrsas a dyna sy'n rheoli'r drefn yn fan hyn ac 'rwy'n siŵr bod y drefn gynllunio yn manteisio yn gyfan gwbl ar yr arian yma o fewn beth sy'n cael ei ganiatáu."

### (2) Cwestiwn gan y Cyngorydd Cai Larsen



“Gyda Chanolfannau Hamdden Gwynedd yn cael eu trosglwyddo i Gwmni Cyfyngedig yn yr Hydref, a oes cynnydd wedi bod yn y gwaith o sefydlu'r Cwmni?”

**Ateb gan yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant, y Cynghorydd Craig ag Iago**

“Fel ‘rydych chi’n gallu gweld, mae popeth wedi mynd yn iawn felly mae’n bleserus iawn sefyll o flaen pawb heddiw hefo adroddiad positif iawn. Mae’r cwmni wedi cael ei gofrestru, mae’r Bwrdd Cysgodol yn ei le ac yn weithredol ac ‘rydym yn mynd drwy’r broses TUPE hefo’r staff ar hyn o bryd. Eto, mae’r ymgynghoriad yma yn bositif iawn ac mae’r undeb wedi bod yn rhan o’r broses o’r cychwyn. Mae nhw’n ei gefnogi, mae’r staff yn ei gefnogi a hefyd mae’r staff i gyd wedi bod yn rhan o’r broses o ddylunio’r cynlluniau busnes. ‘Rydym yn dysgu llawer ac mae eu barn hwy yn mynd i fod yn rhan o sut bydd y cynllun yn cael ei redeg. Mae wedi bod yn ffantastig. Yr unig beth ‘rydw i’n pryderu amdano ydi’r amserlen, mae’n dynn, mae yna lawer o waith - nid ydw i’n gweld y staff yn cael gwyliau haf. Os oes yna unrhyw gwestiynau ar ôl y cyfarfod, ‘rydw i’n hapus iawn i drafod.”

**(3) Cwestiwn gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

“Faint o adnoddau Cyngor Gwynedd mewn amser y swyddogion ac mewn arian parod sydd wedi’i gyfrannu ac sydd i’w gyfrannu eto tuag at sefydlu a hyfywra Cynllun Twf y Gogledd?”

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

“Mae pob un o gynghorau’r Gogledd wedi cytuno i gyfrannu £50,000 at waith sefydlu swyddfa rhaglen maes o law ac mae’r ddau goleg addysg bellach a dau sefydliad addysg uwch hefyd yn cyfrannu £25,000 yr un at y gwaith hwnnw. Mi fuaswn i’n mentro dweud ei bod hi’n anodd iawn mesur mewn oriau nac mewn arian faint ‘rydw i wedi rhoi i mewn iddo. ‘Rydw i wedi ymrwymo i’n partneriaid yn y Gogledd fy mod yn barod i’w cynrychioli hwy yn y gwahanol drafodaethau ‘rydym yn eu cynnal. ‘Roeddwn yn digwydd bod yn Llundain ddoe yn cael trafodaeth gyda’r gweinidog perthnasol. Hefyd, wrth gwrs, mae yna staff o’r holl gynghorau wedi cyfrannu at y gwaith cefndir yn y fan hyn. Mae ein Trysorydd wedi cyfrannu at y gwaith ar yr ochr cyllidol ac mae ein Swyddog Monitro wedi bod yn rhan o dynnu allan y cytundeb llywodraethu, sydd ar y rhaglen heddiw. Felly mae yna waith sylweddol yn digwydd ac mae pob un cyngor, yn ei dro, yn cyfrannu at y gwaith, ond ‘rydym, ar hyn o bryd, yn cymryd rôl arweiniol, ac ‘rwy’n credu bod hynny’n bwysig.”

**Cwestiwn Atodol gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd**

“Yn wyneb y ffaith bod chwarter amser y Pennaeth Economi a Chymuned yn mynd tuag at y cynllun yma a hanner gwaith y Cyfarwyddwr Corfforaethol, pwy sy’n gwneud eu gwaith hwy yn eu habsenoldeb?”

**Ateb gan yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

“Mae gennym wasanaeth adfywio’r economi, ac ‘rydym wedi cael cyfarfod hefo’r Prif Weithredwr, er enghraifft, i sicrhau ein bod yn alluog i fedru caniatáu i’n Cyfarwyddwr wneud y gwaith yma, ac mae hwn yn waith pwysig all ddwyn budd sylweddol i’r Cyngor yma i’r dyfodol. ‘Rydw i’n meddwl ei fod yn werth y buddsoddiad. Os ydych yn credu fel arall, iawn, ond dyna fy marn i. ‘Rydw i’n credu ei bod yn bwysig bod ni’n ymrwymo cymaint ag y gallwn fel y medrwn ddweud bod y cais yma yn llwyddo er budd, nid yn unig trigolion Gwynedd, ond holl drigolion Gogledd Cymru. Mae hynny’n

rhan o'n cyfrifoldeb ni i gyd ac mae'n rhan hefyd, wrth gwrs, o waith dydd i ddydd ein swyddogion, ein gwasanaeth economi a'n Cyfarwyddwr hefyd".

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL GWYNEDD 2017/18

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc adroddiad blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol 2017/18 oedd yn amlygu rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor i weithredu fel rhieni corfforaethol ar gyfer plant mewn gofal, yn rhannu gwybodaeth am weithrediad y panel dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn amlinellu bwriadau'r panel ar gyfer y dyfodol.

Nododd ymhellach yr adroddwyd ar ddiwedd archwiliad llawn o'r Gwasanaeth Plant gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym mis Mai eleni fod ymagwedd y Panel Rhiant Corfforaethol yn gadarnhaol ac yn ddatblygiadol ei natur, ac y byddai hynny, yn ei dro, yn sicrhau bod plant a phobl ifanc mewn gofal yng Ngwynedd yn cael cefnogaeth addas drwy eu cyfnod mewn gofal a thu hwnt.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i aelodau'r panel am eu gwaith ac i aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal am eu diddordeb a'u mewnbwn cadarnhaol tuag at waith yr adran.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, eglurodd yr Aelod Cabinet:-

- Er bod y cynllun ymestyn lleoliadau maeth "*Pan Fydda i'n Barod*" wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc rhwng 18 a 21 oed, bod y Cyngor yn parhau'n gyfrifol am bobl ifanc hyd at 25 oed, ond bod y cymorth yn ddewisol iddynt erbyn hynny.
- Y cyflwynwyd y wybodaeth yn yr adroddiad ar ffurf canrannau yn hytrach na niferoedd er osgoi adnabod achosion unigol.

Pwysleisiwyd bod gan y Cyngor gyfrifoldeb i gynorthwyo'r bobl ifanc hyn i gyflawni eu dyheadau.

## 9. CYNLLUN TWF GOGLEDD CYMRU – TREFNIADAU LLYWODRAETHU

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn gwahodd y Cyngor i gymeradwyo'r trefniadau craffu ar gyfer gweithgaredd y Cyd-bwyllgor Prosiect Twf ("*Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru*") i'w ymgorffori yn y Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf.

Ar gychwyn y drafodaeth, diolchwyd i'r Arweinydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol am eu gwaith yn y maes hwn ac am fod yn llais cryf dros Wynedd. Nodwyd mai dyma'r cynllun pwysicaf a ddeuai gerbron y Cyngor hwn, ac o lwyddo, byddai'n creu swyddi lawer i bobl ifanc ein hardaloedd. Gan hynny, 'roedd yn bwysig bod pawb yn cefnogi hyn, waeth beth fyddai'r gost i'r Cyngor hwn.

I'r gwrthwyneb, mynegwyd amheuan dybryd am y cynllun ar sail nifer o risgiau ariannol a gwleidyddol. 'Roedd Llywodraethau San Steffan a Chymru yn hapus i glymu Gogledd Cymru gyda Gogledd Orllewin Lloegr, er y byddai'n llawer mwy synhwyrol a naturiol i Wynedd gydweithio gyda siroedd Gorllewin Cymru, a byddai siroedd fel Wreccsam a Fflint yn cysylltu a Phwerdy'r Gogledd. Pryderid am yr effaith ar yr economi wledig a'r ffaith y byddai'r cynllun yn boddi Gwynedd yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol. Hefyd, 'roedd risg sylweddol ynghlwm â dirprwyo'r hawl i un person arwain ar y gwaith yng Ngwynedd, waeth pwy fyddai yn y swydd honno i'r dyfodol. Ar sail hyn i gyd, erfyniwyd ar yr aelodau i beidio â chefnogi'r cynllun. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd ei fod yn gwrthod y syniadaeth o gilio, codi amddiffynfeydd a gwrthod gwneud dim â phawb arall, ac i fod yn ffyniannus yn y byd modern, 'roedd rhaid i Wynedd fod yn hyderus ac yn barod i gydweithio gyda holl siroedd y Gogledd.

Mewn ymateb i sylwadau pellach a chwestiynau gan aelodau, nododd yr Arweinydd:-

- Iddo atgoffa'r Ysgrifennydd Gwladol o'i fethiannau diweddar i ddenu buddsoddiad i Gymru a bod dyfodol yr Ysgrifennydd Gwladol yn ddibynnol ar lwyddiant y cynllun hwn.
- Nad oedd y cwestiwn o drethi busnes yn rhan o'r mater dan sylw, ond ei fod yn ymwybodol o'r pryderon a bod y sector breifat yn rhan ganolog o'r holl drafodaethau.
- Ei fod yn ymwybodol iawn o broblemau economaidd yr ardaloedd gwledig ac er na allai'r Cynllun Twf fod yn ateb i bopeth, y byddai ef, ynghyd â'r arweinwyr eraill, yn lleisio barn gref dros brosiectau fydd yn cael effaith ar draws cefn gwlad.
- Mai nod y Cynllun Twf a strategaeth y Cyngor hwn oedd cynyddu sgiliau pobl Gwynedd yn hytrach na bod yr arian yn mynd allan o'r ardal i'r cwmnïau mawr.
- Er nad oedd yna gynllun yn ymwneud ag amaethyddiaeth yn uniongyrchol, y cydnabyddid pwysigrwydd sicrhau mewnbwn y ddwy undeb amaethyddol i'r prosiect, yn enwedig o ystyried goblygiadau Brexit.
- Nad oedd cymeradwyo'r trefniadau yn golygu arwyddo unrhyw siec wag. Er ei fod yn deall bod yna elfen o sinigiaeth am y cynllun hwn, o gofio am aflwyddiant rhai o gynlluniau'r gorffennol, ni olygai hynny na ddylid ceisio manteisio ar yr hyn sy'n cael ei gynnig y tro hwn.
- Na allai wneud penderfyniad ar nifer o faterion heb gymeradwyaeth y Cyngor llawn.
- Bod y Cynllun Twf wedi arwain at gytundeb gwleidyddol ar draws y Gogledd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r trefniadau craffu ar gyfer gweithgaredd y Cyd-bwyllgor Prosiect Twf ("Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru") i'w ymgorffori yn y Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf.**

## **10. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2017/18**

Cyflwynodd yr Arweinydd adroddiad yn argymhell i'r Cyngor gymeradwyo'r adroddiad perfformiad blynyddol yn ddarlun cytbwys, teg a chywir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2017/18, a'i fabwysiadu.

Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion hynny fu ynghlwm â'r gwaith.

Mewn ymateb i sylwadau / cwestiynau gan aelodau, nododd yr Arweinydd:-

- Y byddai'n holi'r Aelod Cabinet Addysg a yw'r gostyngiad o 64.4% yn 2016/17 i 57.4% yn 2017/18 yng nghanran disgyblion 16 oed sydd yn ennill y Dangosydd Pynciau Craidd yn fater o bryder i'r gwasanaeth.
- Bod yr Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant yn gweithio'n galed yn y maes hamdden i greu'r cwmni hyd braich newydd ac y mawr hyderid y byddai'r trefniadau newydd yn rhoi bywyd a chyfeiriad newydd i'r gwasanaeth ac yn denu pobl yn ôl i'r canolfannau hamdden.
- Nad oedd yn obeithiol y gellid denu arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i gydnabod y gwerth ychwanegol mae gwaith arloesol staff y Cyngor hwn ar y Gymraeg, megis y Siarter Iaith, yn ei gynnig i bobl Cymru yn gyfan gwbl. Ychwanegodd fod rhaid cydnabod hefyd bod cynghorau eraill yn gwneud gwaith sylweddol ar y Gymraeg a bod y Cyngor hwn yn fodlon cynnig help llaw i unrhyw un sydd eisiau cymorth i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Y cydnabyddid bod recriwtio gofalcwyr cartref yn ardaloedd gwledig y sir yn broblem gynyddol ac, yn y tymor hir, bod rhaid creu strwythur o yrfa yn y maes gofal lle gallai'r Cyngor fod yn falch o'r gwaith sy'n cael ei wneud. Cyfeiriodd hefyd at lwyddiant y cydweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd yn y maes gofal henoed gan nodi bod blaenoriaeth yn cael ei roi i anghenion yr oedolyn a'r hyn sydd ei angen arnynt i fedru parhau i fyw'n annibynnol.

- Bod mabwysiadu'r adroddiad perfformiad blynyddol hwn yn rhan o'r gwaith o genhadu'r gwaith da sy'n cael ei wneud gan staff y Cyngor. Yn ogystal â chyhoeddi'r adroddiad yn ei gyfanrwydd ar wefan y Cyngor, 'roedd bwriad hefyd i gyfathrebu negeseuon allan o'r adroddiad ar y cyfryngau digidol.
- Y byddai'n cael sgwrs gyda'r aelod lleol ynglŷn â'r pryder a fynegwyd ganddo am ddiffyg arian ar gyfer rhedeg adeilad ysgol feithrin Talysarn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad yn adlewyrchiad cywir, cytbwys a chlir o berfformiad y Cyngor yn ystod 2017/18, a'i fabwysiadu.**

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2017/18**

Cyflwynodd Cadeirydd y Fforwm Craffu, y Cynghorydd Beth Lawton adroddiad blynyddol craffu ar gyfer 2017/18. Diolchodd i'r aelodau craffu sy'n mynychu cyfarfodydd y pwyllgorau craffu gan nodi fod y presenoldeb yn uchel iawn. Ymddiheurodd bod rhai mân wallau yn yr adroddiad gan nodi y byddai'n gofyn i'r swyddogion gywiro'r gwallau hynny cyn cyhoeddi'r adroddiad yn derfynol.

Mewn ymateb i gwestiynau / sylwadau gan aelodau, nododd Cadeirydd y Fforwm Craffu:-

- Ei bod yn fodlon bod y gwaith craffu yn cael clust a bod statws yn perthyn i'r Fforwm Craffu erbyn hyn, gyda'r Prif Weithredwr a swyddogion allweddol yn mynychu'r cyfarfodydd. Ychwanegodd bod lle i wella craffu o hyd a byddai'r sefyllfa'n cael ei adolygu dros y flwyddyn nesaf er mwyn gweld sut mae'r drefn yn gweithio.
- Yn absenoldeb anorfod 2 o'r cadeiryddion craffu o'r cyfarfod hwn, mai dymuniad y Fforwm Craffu oedd iddi hi gyflwyno'r adroddiad blynyddol ar ran y 4 cadeirydd.
- Y gallai'r Fforwm Craffu edrych ar y sylw a wnaed bod llwyth gwaith y pwyllgorau craffu a'r angen i gwestiynu'n fanwl yn teilyngu neilltuo diwrnod cyfan ar gyfer cyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Holwyd pwy fydd yn cynnal yr archwiliad annibynnol i ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog, a phryd. Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal, nododd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts (sydd hefyd yn Is-gadeirydd y Cyngor Iechyd Cymuned) mai ei ddealltwriaeth ef oedd:-

- Y bu i'r Pwyllgor Craffu Gofal wahodd y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) i gynnal archwiliad annibynnol i ddarpariaeth iechyd yn ardal Blaenau Ffestiniog.
- Er bod y CIC yn llwyr gefnogol i'r bobl oedd wedi dod â'r mater hwn gerbron, nad oedd ganddynt yr adnoddau i wneud y math hwn o archwiliad. Hefyd, pwrpas y CIC yw edrych ar faterion unigolion, ac 'roedd hyn yn rhywbeth llawer mwy.
- Ei bod yn ymddangos, felly, bod hyn yn fater i Lywodraeth Cymru benderfynu pwy ddylai gynnal yr archwiliad.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd:-

- Bod y sefyllfa'n gywilyddus gyda phobl resymol yn disgwyl am ateb i'w cais hollol resymol a democrataidd, ond neb yn cymryd sylw ohonynt.
- Bod angen i'r Pwyllgor Craffu Gofal ail-edrych ar y mater, gyda'r bwriad tebygol o gyfeirio'r mater yn ôl i Lywodraeth Cymru.

Diolchwyd i Gadeirydd y Fforwm Craffu am gyflwyno'r adroddiad ar ran y cadeiryddion craffu.

**12. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2017/18**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ei hadroddiad blynyddol yn cynnig trosolwg o berfformiad 2017/18 ac yn gwerthuso'r ffordd y mae Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd wedi hybu lles y bobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr yng Ngwynedd.

Nododd y bu'n flwyddyn o berfformiad cadarnhaol, a hyn mewn cyd-destun o alw uwch a chymhlethdod cynyddol. 'Roedd llawer iawn wedi'i gyflawni yn y maes yn ystod y flwyddyn, a hynny, i raddau, yn adlewyrchiad o'r berthynas dda sydd gan y Cyngor gyda'i bartneriaid allweddol o fewn y maes.

Nododd hefyd y cafodd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd Arolygiad llawn o'u gwasanaethau gan Arolygaeth Gofal Cymru yn ddiweddar, ac er nad oedd yr adroddiad swyddogol wedi'i gytuno a'i gyhoeddi eto, bod yr adborth llafar gan y Prif Arolygwr ar ddiwedd y gwaith maes yn gadarnhaol iawn ac yn canmol y gwaith sy'n digwydd o fewn y Cyngor.

Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r holl staff, yn fewnol ac allanol, am eu gwaith diflino ac ymroddedig eto eleni. Diolchodd yn arbennig i Marian Parry Hughes (Pennaeth Plant a Theuluoedd) ac Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant) fu'n gweithio'n agos gyda hi ar y gwaith o lunio'r adroddiad blynyddol. Diolchodd hefyd i aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal am eu gwaith a'u sylwadau adeiladol ac i'r Aelodau Cabinet yn y maes gofal, y Cyngorwyr W.Gareth Roberts a Dilwyn Morgan am eu cefnogaeth dros y flwyddyn.

Mewn ymateb i gwestiynau / sylwadau gan aelodau, nododd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol:-

- O ran morâl y staff, y cydnabyddid ei bod yn gyfnod heriol i bawb, ac er bod rhai staff yn fwy hyderus ac yn gweld y newidiadau yn y gwasanaeth yn haws na'i gilydd, eu bod yn croesawu'r ffaith bod y rheolwyr yn ymddiried ynddynt bellach. Ychwanegodd fod yr arolygwyr wedi sylwi bod gan y Cyngor staff ymroddgar a hyderus a bod morâl yn edrych yn uchel. Hefyd, 'roedd staff yn aros mewn swyddi, yn hoff o weithio drwy'r Gymraeg ac yn brofiadol yn eu gwaith.
- Bod y Bwrdd Gweithlu Rhanbarthol yn edrych ar beth fyddai'r effaith ar y gwasanaeth o bobl yn dychwelyd i Wynedd o'r cyfandir yn sgil Brexit, ond nad oedd ateb hawdd i'r broblem yma.
- Canmolwyd y ddarpariaeth a'r gefnogaeth wych yn yr Uned Egwyl Fer, Hafan y Sêr, Penrhyndeudraeth.

### 13. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd:-

- Yn dilyn derbyn neges y bore hwnnw gan y Cyngorydd Sion Jones yn nodi ei fod yn tynnu ei gais i ymuno â'r Grŵp Annibynnol yn ôl, bod angen addasu'r adroddiad 'Cydbwysedd Gwleidyddol' a gynhwyswyd gyda rhaglen y cyfarfod.
- Yn sgil trafodaeth gyda'r Swyddog Monitro a'r aelodau dan sylw, a hefyd hysbysu Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol o'r datblygiad diweddaraf hwn, y cyflwynid yr argymhelliad a ganlyn, mewn ymgais i sicrhau ateb ymarferol a chynnal aelodaeth mor llawn a chyson â phosib' ar bwyllgorau'r Cyngor:-
  - (a) Gofynnir i'r Cyngor benodi'r Cyngorydd Stephen Churchman i'r seddau unigol ar y Pwyllgorau Craffu Cymunedau, y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Pensiynau.
  - (b) Gofynnir i'r Cyngor benodi'r Cyngorydd Sion Jones ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Pwyllgor Trwyddedu.

**PENDERFYNWYD**

- (a) Penodi'r Cynghorydd Stephen Churchman i'r seddau unigol ar y Pwyllgorau Craffu Cymunedau, y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Pensiynau.
- (b) Penodi'r Cynghorydd Sion Jones ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Pwyllgor Trwyddedu.

**14. YMATEBION I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth:-

- (a) Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Elin Walker Jones i gyfarfod 8 Mawrth, 2018 ynglŷn â threth ar blastigion.
- (b) Llythyrau gan Lywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Judith Humphreys i gyfarfod blynyddol 3 Mai, 2018, ynglŷn â Dinasyddiaeth Gysylltiol yr UE.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y llythyrau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00yp a daeth i ben am 3.35yp.

---

**CADEIRYDD**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.35 y.h.

**CADEIRYDD**

# Eitem 9

<b>CYFARFOD:</b>	<b>CYNGOR LLAWN</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>04 Hydref 2018</b>
<b>TEITL:</b>	<b>Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023</b>
<b>PWRPAS:</b>	Cyflwyno'r Cynllun Hybu terfynol a'r rhaglen waith arfaethedig i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu.
<b>AELOD CABINET:</b>	<b>Y Cyngorydd Nia Jeffreys</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>Gwenllian Mair Williams</b> <b>Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg</b>

## 1. Cefndir

- 1.1 Mae Safon 145 o Safonau'r Gymraeg, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yn gosod dyletswydd statudol ar y Cyngor i ni lunio strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn ein hardal.
- 1.2 Mae Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd wedi cael ei ddatblygu er mwyn bodloni'r gofyn hwnnw, ac yn dangos ymrwymiad y Cyngor i hybu'r Gymraeg ym mhob rhan o fywyd trigolion y sir.
- 1.3 Cafodd strategaeth ddrafft ei llunio yn gynharach eleni ar sail ymgynghori gydag aelodau a swyddogion perthnasol ac ar ddadansoddiad o strategaethau a chynlluniau perthnasol yn y maes, a bu ymgynghori cyhoeddus ar gynnwys y ddogfen ddrafft honno, wedi iddi dderbyn cymeradwyaeth gan Gabinet y Cyngor, rhwng Ebrill a Mehefin 2018.
- 1.4 Mae'r Cynllun terfynol wedi ei ddiwygio yn sgil yr ymgynghori, gan gymryd rhai o'r materion a godwyd i ystyriaeth, ac mae rhaglen waith gychwynnol wedi ei llunio sydd yn manylu ar sut y byddwn yn mynd ati i weithredu ar y blaenoriaethau yn y Cynllun.
- 1.5 Mae'r Meysydd Blaenoriaeth yn y Cynllun Hybu terfynol a gyflwynir yn dilyn yn agos y meysydd gweithredu oedd yn y strategaeth flaenorol, ac hefyd yn ceisio adlewyrchu'r meysydd hynny y mae Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, yn rhoi sylw iddynt.
- 1.6 Mae rhaglen waith gychwynnol yn rhoi syniad o'r camau cyntaf y byddwn yn eu cymryd ac yn seiliedig ar drafodaethau gydag adrannau perthnasol, a phartneriaid, er mwyn adnabod ffrydiau gwaith sydd yn ateb y blaenoriaethau, ac hefyd cyfleoedd ar gyfer cydweithio neu brosiectau o'r newydd.

- 1.7 Rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn gyntaf yw hon, a bydd yn rhaglen waith fyw, gyda ffrydiau gwaith newydd yn cael eu hychwanegu wrth iddynt ddatblygu.
- 1.8 Cafodd y Cynllun Hybu terfynol a'r Rhaglen waith gychwynol ei chymeradwyo gan Gabinet y Cyngor ar y 18fed o Fedi 2018.

## **2. Camau Nesaf**

- 2.1 Bydd grwpiau thematig yn cael eu sefydlu er mwyn cydlynu a gyrru'r gwaith yn ei flaen, a manylion am brosiectau neu gynlluniau newydd sydd yn cael eu cytuno gyda phartneriaid allanol o ganlyniad i'r grwpiau yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith.

## **3. Argymhelliad**

- 3.1 Gofynnir i'r Cyngor dderbyn y Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023 a'r rhaglen waith gysylltiedig ac i gymeradwyo cychwyn ar y gweithredu.





# Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023



# Cynnwys

	Tudalen
1. Cyflwynad.....	1
2. Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a'r heriau.....	2
3. Beth hoffem ni ei weld?.....	4
3.1 Maes Blaenoriaeth 1 – Iaith y teulu.....	5
3.2 Maes Blaenoriaeth 2 – Iaith dysgu.....	8
3.3 Maes Blaenoriaeth 3 – Iaith gwaith a gwasanaeth.....	12
3.4 Maes Blaenoriaeth 4 – Iaith y gymuned.....	15
3.5 Maes Blaenoriaeth 5 – Ymchwil a thechnoleg – gosod y seiliau cywir.....	18
4. Gweithredu'r Cynllun Hybu.....	20



# 1. Cyflwyniad

Mae Safon 145 o Safonau'r Gymraeg, a osodwyd ar y Gyngor Gwynedd yn unol ag Adran 44 **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011** yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd fydd yn dangos sut yr ydym yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir.

Mae gan Gyngor Gwynedd hanes hir o hybu a gwarchod yr iaith fel cyfrwng cyfathrebu naturiol ei wasanaethau. Rhoir lle amlwg i'r Gymraeg yng nghynlluniau strategol y Cyngor, ac mae Polisi Iaith y Cyngor hefyd yn nodi ein hymrwymiad drwy ddatgan y rhoir cyfrifoldeb ar **holl** Swyddogion ac Aelodau'r Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o'u gwaith.

Mae **Cynllun y Cyngor 2018-2023** yn nodi mai un o'i amcanion llesiant yw sicrhau bod holl drigolion Gwynedd yn cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Nid hon yw strategaeth iaith gyntaf y Cyngor, gan fod Strategaeth Iaith Gwynedd (fersiwn ddiweddaraf 2014-2018) wedi bod yn gosod y flaenoriaeth a'r sylfaen ar gyfer gwaith Hunaniaith, y fenter iaith sydd yn gweithredu fel rhan o Uned Iaith y Cyngor, ers rhai blynyddoedd. Mae'r strategaeth hon felly yn nodi'r cyfleoedd presennol ar gyfer hybu a chynyddu defnydd o'r Gymraeg fel rhan naturiol o fywyd dyddiol yn y sir ac yn adlewyrchu ymrwymadau ehangach y Cyngor yng nghyswllt y Gymraeg, mewn sawl maes megis addysg, cynllunio a gwasanaethau cymdeithasol a gofal<sup>1</sup>, a chan ategu'r blaenoriaethau a nodir yng **Nghynllun y Cyngor a Chynllun Llesiant Gwynedd a Môn**.

Bydd y Strategaeth hefyd yn dangos cyfraniad Gwynedd tuag at **Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050**, sydd yn gosod y nôd o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

Bydd gweithrediad a llwyddiant y Strategaeth yn ddibynnol ar gydweithio rhwng nifer o bartneriaid, yn gyrrff cyhoeddus ac yn grwpiau cymunedol, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau amrywiol sydd yn wynebu'r Gymraeg ar draws y sir.

<sup>1</sup> Fframwaith strategol olynol Mwy na Geiriau.... ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol

<http://gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?lang=cy>

## 2. Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a'r heriau

### 2.1 Ystadegau allweddol

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 65.4% o boblogaeth Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg.

Gwelwyd cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn rhai ardaloedd o Wynedd, gan gynnwys Waunfawr, Ogwen, Y Groeslon, Llanbedr, Corris/Mawddwy, a gwelwyd cynnydd yn ôl dros y trothwy 70% yn ward Clynnog.

Ond gwelwyd gostyngiad yn gyffredinol yn nifer y wardiau lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, gyda 39 allan o 71 ward ar ôl yn ôl cyfrifiad 2011.

Gwelwyd y cwmp mwyaf yng nghanran y siaradwyr yn y grŵp oedran 65+, a'r cynnydd mwyaf ymysg y trigolion 'fengaf un, yn y grwpiau oedran 3-4 oed (70.9% i 73.0%) a 5-15 oed (91.8% i 92.3%), sydd yn awgrymu bod y gwasanaethau blynyddoedd cynnar a'r system addysg yn gwneud gwaith da o osod sylfeini cadarn i'n plant a phobl ifanc yn eu gallu a'r defnydd o'r Gymraeg.

### 2.2 Crynodeb o'r heriau

Er mwyn i ni allu canfod cyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ac i gynyddu nifer y siaradwyr, mae angen i ni hefyd allu cydnabod yr heriau a'r rhwystrau sydd yn atal hynny. Mae angen i ni allu adnabod yr ardaloedd o'r sir, neu'r rhannau o fywyd, lle mae pobl yn defnyddio llai o'r iaith yn eu bywyd dyddiol, a deall pa ffactorau sydd yn gallu effeithio ar ddefnydd personol unigolyn o'r iaith.

**Yn sicr ddigon, cael pobl i ddefnyddio'r sgiliau a'r gallu sydd ganddyn nhw i siarad Cymraeg, a hynny mewn cymaint â phosib o gyd-destunau, yw'r ffactor bwysig i ffyniant yr iaith yng Ngwynedd.**

Er mwyn gallu annog y defnydd hwnnw, mae angen ystyried effaith yr heriau, a sut y gallwn fynd i'r afael â nhw er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ar draws y sir ddefnyddio ac arddel yr iaith o ddydd i ddydd.

- **Heriau daearyddol:**

Gwahaniaethau yn nifer a chanran y siaradwyr ar draws y sir, a'r amrywiaeth swyddi/gwasanaethau sydd ar gael mewn rhai ardaloedd gwledig yn golygu bod angen atebion ac ymyraethau gwahanol er mwyn gwarchod y Gymraeg.

- **Symudoledd a mudo:**

Pobl ifanc yn symud allan o'r ardal i chwilio am waith a llai o deuluoedd yn symud i mewn i rai ardaloedd - rhai gwledig yn enwedig - oherwydd diffyg gwasanaethau. Nifer sydd yn symud i mewn i ardaloedd o ardaloedd eraill a thu hwnt i Wynedd yn creu newidiadau demograffig.

- **Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu:**

Teuluoedd ddim yn trosglwyddo'r iaith i'w plant gan arwain at golli'r Gymraeg fel iaith y cartref.

- **Colli nifer siaradwyr ar ôl 16 oed:**

Dim dilyniant cadarn o ddefnydd wrth adael addysg a phobl ifanc yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r iaith wrth fynd mewn i fyd gwaith ac yn eu bywyd cymdeithasol fel oedolion.

- **Statws y Gymraeg fel iaith busnes:**

Dim defnydd digon amlwg o'r Gymraeg gan fusnesau

- **Cyfleoedd a chefnogaeth i ddysgwyr:**

Nifer o newydd-ddyfodiad sydd ag awydd i ddysgu ond yn ei chael yn anodd oherwydd diffyg cyfleoedd amserol a hwylus.

- **Dylanwad technoleg:**

Technoleg yn chwarae rôl gynyddol amlwg ym mywydau pobl, ac yn enwedig felly pobl ifanc. Diffyg adnoddau a datblygiadau cyfrwng Cymraeg yn golygu bod dylanwad y Saesneg yn cynyddu ar fywydau dydd i ddydd.

- **Hyder unigolion yn eu gallu a'u sgiliau:**

Diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn rheolaidd wrth gymdeithasu ac anawsterau wrth ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yn gallu arwain at ddiffyg hyder ac at lai o ddefnydd.



### 3. Beth hoffem ni ei weld?

Ein dymuniad yn y tymor hir yw gweld canran siaradwyr Cymraeg Gwynedd yn dringo yn ôl at y ffigur o 70%, a'r ganran yn cael ei chynnal uwchlaw hynny yn y cadarnleoedd.

Mae ein cyfundrefn addysg lwyddiannus eisoes yn golygu bod 92% o blant 5-15 oed Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg. Yr her i ni yw cael y 92% yma i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg.


Ein blaenoriaeth ar gyfer cyfnod cyntaf y cynllun hwn, yn arwain at y Cyfrifiad nesaf yn 2021, felly, fydd cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer defnyddio'r Gymraeg, ar gyfer magu hyder unigolion nad ydynt yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, ac hefyd edrych ar gyfleoedd fydd yn ein helpu i gadw pobl ifanc yn ein cymunedau.

Wrth weithio tuag at y cynyddu yn y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, felly, dyma yr hoffem ei weld:

- Teuluoedd sydd yn gweld gwerth i'r iaith ac yn ei defnyddio fel iaith y cartref.
- Ysgolion a sefydliadau addysgol sydd yn rhoi bob cefnogaeth ac anogaeth i ddatblygu siaradwyr Cymraeg hyderus.
- Plant a phobl ifanc sydd yn gweld gwerth i'r iaith fel sgil ar gyfer eu bywyd ac fel cyfrwng adloniant a chymdeithasu ac sydd yn ei defnyddio ym mhob rhan o'u bywyd.
- Sefydliadau a chyrrff sydd yn cynnig gwasanaethau Cymraeg yn gyson ac yn safonol.
- Sector busnes sydd yn rhoi gwerth a statws i'r iaith ac sy'n deall bod y Gymraeg yn sgil ac yn adnodd wrth recriwtio.
- Y Gymraeg yn gyfrwng iaith naturiol wrth ddatblygu a defnyddio technoleg.
- Grwpiau cymunedol yn cael eu cefnogi i gynnal y Gymraeg fel cyfrwng cyfathrebu naturiol ac i sicrhau bod pobl o bob cefndir ieithyddol a chymdeithasol yn cael eu cynnwys mewn gweithgarwch cymunedol.
- Y Gymraeg yn cael lle blaenllaw gan y Cyngor mewn cynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a datblygiadau yn cyfrannu yn gadarnhaol at ymdrechion i ddiogelu'r iaith yn ein cymunedau.
- Trigolion sydd yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac yn dangos agwedd gadarnhaol ac ewyllys da tuag ati.

Yn rhan nesaf y ddogfen, byddwn yn trafod rhai o'r pwyntiau uchod dan bum maes thematig, sydd hefyd yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a osodir yn **Strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050**.

Bydd camau a ffrydiau gwaith penodol sydd yn cyfrannu tuag at y weledigaeth a'r newid yr hoffem ei weld dan y pum brif faes blaenoriaeth yn cael eu nodi mewn rhaglen waith, fydd yn atodiad i'r Cynllun Hybu hwn.



# 3.1

## Maes Blaenoriaeth 1 – laith y teulu

## Y weledigaeth...

- Gwell cydweithio rhwng asiantaethau partner er mwyn sicrhau bod darparwyr gofal cyfrwng Cymraeg yn cael eu monitro a'u cefnogi yn briodol.
- Gwell dealltwriaeth ymysg rhieni o werth trosglwyddo'r Gymraeg i blant, ac o fanteision amlieithrwydd.
- Cynnydd yn nifer y cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant cyn oed ysgol.
- Cynnydd yn nifer y cyfleoedd i rieni a theuluoedd ddysgu Cymraeg er mwyn gallu defnyddio'r sgiliau hynny gyda'u teuluoedd.
- Cynnydd yn nifer y plant o aelwydydd lle caiff mwy nag un iaith ei siarad sydd yn gallu'r Gymraeg.

## Y darlun ystadegol...

**Mae 90% o blant 3-4 oed Gwynedd sydd yn dod o gartrefi lle mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg yn gallu siarad Cymraeg.**

**Mae 63% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg pan mai dim ond un riant sydd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Gymraeg.**

**Yn fwy cadarnhaol fyth, mae 35% o blant sydd yn cael eu magu ar aelwydydd lle nad oes yr un o'r ddau riant yn siarad Cymraeg, yn cael eu nodi fel siaradwyr Cymraeg yng nghyfrifiad 2011.**



## Beth sydd angen digwydd nesaf?

Er mwyn i'r Gymraeg fod yn gyfrwng iaith naturiol ymysg teuluoedd, rhaid sicrhau bod patrymau iaith cadarnhaol yn cael eu gosod yn gynnar ym mywyd plant. Y flaenoriaeth yn y maes hwn felly fydd cydweithio gydag asiantaethau a phartneriaid ym maes blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau bod negeseuon cadarn a chyson yn cael eu rhannu gyda rhieni a gwarcheidwaid am werth yr iaith, nid yn unig i'r plant ond i'r teulu cyfan, ac hefyd bod digon o gyfleoedd ar gael sydd yn annog mwy o deuluoedd i ddysgu'r iaith ochr yn ochr â'u plant.


Rhaid sicrhau bod ymdrechion yn cael eu targedu yn briodol ac felly bydd angen sicrhau bod adnoddau ac arbenigedd yn cael eu rhannu yn effeithiol rhwng y sefydliadau a'r darparwyr hyn er mwyn cael y dylanwad a'r cyrhaeddiad ehangaf posib.

Mae angen sicrhau bod darparwyr gofal cyn oed ysgol yn cael y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i gynnal cyfrwng iaith y gofal ac i gael y dylanwad gorau posib ar gaffaeliad iaith y plant ifanc yn eu gofal.

Mae angen sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae anffurfiol, fydd yn annog rhieni a gofalwyr i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg efo'u plant, ac sydd yn leoliadau croesawgar a chefnogol, beth bynnag fo gallu ieithyddol rhywun, yn cael eu cynnig yn gyson ar draws y sir.

Mae lluo o ddarparwyr unigol a grwpiau annibynnol yn bodoli yn y sir hefyd, sydd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau anffurfiol i rieni a phlant ifanc, megis sesiynau stori a chân a sesiynau nofio ac ymarfer corff.

Mae cyfle yma i fod yn dylanwadu ar y darparwyr hynny drwy gynnig sesiynau ymwybyddiaeth iaith a hyfforddiant wedi ei deilwra yn arbennig ar eu cyfer ar faterion megis sut i drosglwyddo negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg i rieni. Mae Hunaniaith eisoes yn gwneud rhywfaint o waith fel hyn, ar y cyd efo **Cymraeg i Blant a'r gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar**, a hoffem weld hynny yn parhau ac yn ehangu dros y blynyddoedd nesaf.



## 3.2

# Maes Blaenoriaeth 2 – laith dysgu

## Y weledigaeth...

- Ysgolion sydd yn rhoi bri a gwerth i'r Gymraeg ac yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu drwy barhau i weithredu'r Siarter Iaith a Strategaeth Iaith Uwchradd.
- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd yn dewis astudio ac yn derbyn cymwysterau neu achrediaadau cydnabyddedig drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd ac i addysg ôl-orfodol.
- Mwy o gyfleoedd dysgu estynedig yn cael eu cynnig i bobl ifanc - ar ffurf profiad gwaith a phrentisiaethau gyda chyflogwyr sydd yn rhoi statws amlwg i'r Gymraeg - fydd yn datblygu dealltwriaeth pobl ifanc o'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle.

## Y darlun ystadegol...

**Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 1,997, sef 73% o blant 3-4 oed Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg, a 13,038, sef 92% o'r plant 5-15 oed.**

**Yn ôl ystadegau'r Siarter Iaith, a gyhoeddwyd yn Asesiad Llesiant Gwynedd yn ddiweddar, dim ond 41.2% o ddisgyblion CA2 sydd yn defnyddio'r Gymraeg "bob amser" ar iard neu fuarth yr ysgol.**

**Mae canran y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd yn gostwng yn sylweddol wrth symud o'r grŵp oedran 3-15 oed i 16-24 oed, o 89% i 58.6%.**

**Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, yn nodi bod dros hanner dysgwyr Cymru yn gadael yr ysgol yn 16 oed, gan symud ymlaen i addysg bellach, seiliedig ar waith, neu gyflogaeth.**

## Beth sydd angen digwydd nesaf?

Er mwyn gallu sicrhau bod y Gymraeg yn parhau yn gadarn fel iaith dysgu ac addysgu yn y sir, y flaenoriaeth ar gyfer y maes hwn fydd sicrhau cyswllt amlwg rhwng cyfrwng dysgu ac iaith gwaith, a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff dysgu a theulu'r ysgol a'r colegau o'u rôl nhw i hybu'r Gymraeg yn eu sefydliadau a'u cyfraniad at y weledigaeth ehangach ar gyfer y sir.

Mae sawl cynllun yn cael ei weithredu gan Adran Addysg y sir sydd yn mynd i'r afael â'r maes hwn, gyda Pholisi Iaith Adran Addysg Gwynedd a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer y gwaith hwnnw. Wrth ymestyn gweithrediad y cynlluniau hynny dros y blynyddoedd nesaf rydym yn gobeithio cael dylanwad cadarnhaol ar ddefnydd ac ar ddewisiadau ieithyddol pobl ifanc, fydd yn ei dro yn arwain at agwedd fwy cadarnhaol tuag at y Gymraeg wrth iddynt dyfu yn oedolion.

Y prosiect fydd yn cael y prif sylw dros y cyfnod nesaf yw **Strategaeth Iaith Uwchradd** y sir, sydd wedi ei datblygu i fod yn ddilyniant i waith y Siarter Iaith yn ysgolion cynradd y sir – cynllun a ddatblygwyd dan y Strategaeth Iaith sirol flaenorol. Nod y Strategaeth Uwchradd yw sicrhau bod y Gymraeg yn gyfrwng effeithiol ar gyfer bywyd a gwaith yr ysgol yn ei holl agweddau, gan ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd ieithyddol plant a phobl ifanc, mewn cyd-destun cwricwlaidd a chymdeithasol.

Bydd pob ysgol yn gweithredu'r **Strategaeth Iaith Uwchradd** ac yn gweithio i sicrhau fod holl randdeiliaid yr ysgol ynghlwm â'r cynllun. Bydd yn ceisio sicrhau bod mwy o bobl ifanc yn dewis astudio ac ennill cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion uwchradd – a fydd gobeithio yn arwain at fwy yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel addysg bellach ac uwch; yn datblygu arweinwyr ifanc drwy roi rôl amlwg i bobl ifanc a Chynghorau ysgol wrth drefnu gweithgareddau a dylanwadu ar ddefnydd iaith cyfoedion; ac yn sicrhau bod staff yr ysgol yn deall y rhan sydd ganddynt i fod yn fodolau rôl ac i annog a chefnogi disgyblion i wneud dewisiadau fydd yn datblygu eu sgiliau dwyieithog.

Mae'r **Siarter Iaith** yn parhau i dyfu hefyd - a bellach yn cael ei gweithredu led-led Cymru dan arweiniad y Llywodraeth. Mae'r prosiect hwn yn golygu bod ysgolion cynradd yn gwneud gwaith da i ddylanwadu ar agweddau a defnydd iaith disgyblion y tu allan i'r ystafell ddosbarth, a bydd parhau i gynnig cefnogaeth ac arweiniad i staff a theulu yr ysgol i weithredu'r Siarter yn allweddol.

### Addysg ôl-orfodol

Byddwn hefyd yn gweithredu i geisio lleihau nifer y siaradwyr Cymraeg naturiol sydd yn cael eu colli wrth iddynt adael yr ysgol a'i dylanwad.

Mae cyswllt amlwg yma gyda defnydd o'r iaith mewn gwaith, a'r angen i bobl ifanc weld ei gwerth fel sgil ac ased. Byddwn felly'n cydweithio gyda darparwyr addysg ôl-orfodol er mwyn cryfhau'r cyswllt rhwng cyrsiau galwedigaethol a'r cyfleoedd gwaith a chyflogwyr yn y sir sydd yn chwilio am weithwyr gyda sgiliau ieithyddol, a sicrhau bod y gallu a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y byd gwaith yn lleol yn cael ei fodloni gan y system addysg.



## 3.3

# Maes Blaenoriaeth 3 – laith gwaith a gwasanaeth

## Y weledigaeth...

- Cynnydd yn nifer y trigolion sydd yn defnyddio'r Gymraeg wrth weithio a defnyddio gwasanaethau – wyneb yn wyneb ac ar lein.
- Gwella ymwybyddiaeth ymysg perchnogion a rheolwyr busnesau am werth sgiliau Cymraeg ymysg eu gweithlu a chynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.
- Cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd y gall technoleg ac adnoddau Cymraeg eu cynnig i gynyddu defnydd a hyder o'r Gymraeg yn y gwaith.
- Y Gymraeg yn cael lle canolog mewn trefniadau cydweithio ac mewn cynlluniau strategol traws-sirol.

## Y darlun ystadegol...

Yn ôl ymchwil Arolwg Defnydd Iaith Cenedlaethol 2013-15, mae 85% o siaradwyr Cymraeg rhugl Gwynedd yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Mae hyn wedi gostwng o'r 90% a nodwyd yn yr Arolwg ar gyfer 2004-06.

Mae dros 90% o staff Cyngor Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg, sydd yn golygu bod posib i holl drigolion Gwynedd gael gafael ar wasanaethau cyfrwng Cymraeg, lle bynnag y byddant.

## Beth sydd angen digwydd nesaf?

**Byddwn yn ceisio sicrhau bod cyn lleied o rwystrau â phosib i bobl ddefnyddio gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, yn y sector cyhoeddus a phreifat, a bod y gwasanaethau hynny yn hawdd eu deall a'u defnyddio.**

Bydd hyn yn golygu cydweithio gyda chyrff eraill drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau cyhoeddus y sir, er mwyn annog defnyddwyr i ddefnyddio'r Gymraeg bob amser yn eu cyswllt cyntaf gyda chyrff cyhoeddus, ac er mwyn datblygu dealltwriaeth ymysg y cyrff eu hunain o'r arfer gorau wrth gyfarch defnyddwyr yn y cyswllt cyntaf hwn.

Mae'r Cyngor, fel cyflogwr, yn ymrwymo i ddatblygu amrywiaeth eang o hyfforddiant iaith er mwyn datblygu sgiliau'r gweithlu, i roi cyfleoedd i bobl ddysgu wrth weithio, i ymarfer sgiliau y maent newydd eu dysgu, ac i geisio delio gyda materion o ddiffyg hyder mewn sgiliau ysgrifenedig. A hyn i gyd er mwyn arwain at newid arferion yn y gweithle. Byddwn hefyd yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar fodelau newid ymddygiad, er mwyn ceisio dylanwadu mewn ffordd gadarnhaol ar arferion iaith y gweithlu. Wrth ddatblygu sgiliau'r gweithlu byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael yn gyson i'r trigolion.

Bydd angen i ni ymchwilio i ffyrdd newydd o annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, wrth i wasanaethau ar-lein a wyneb yn wyneb newid, a pharhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hamlygu a'i hybu fel rhan o gytundebau cyd-ddarparu neu allanoli gwasanaethau.

Drwy osod a chytuno ar amodau cryf gyda phartneriaid a darparwyr allanol, a mynnu bod cytundebau cydweithio yn glynu at ein hegwyddorion a'n safonau ni, gallwn wella ansawdd mwy o wasanaethau a gynigir i'r cyhoedd.

Yn unol â'r ymrwymiad yng **Nghynllun y Cyngor**, bydd angen gweithio gyda busnesau lleol, ac yn enwedig felly mewn meysydd fel twristiaeth a hamdden, er mwyn cynnig arweiniad ar roi llwyfan amlwg i'r Gymraeg yn eu gweithgarwch, ac i sgiliau Cymraeg (neu amlieithog) o fewn eu polisïau recriwtio. Byddai hyn yn codi statws y Gymraeg fel iaith gwaith, yn ogystal â chodi proffil yr iaith ymysg ymwelwyr rhyngwladol, gan ychwanegu naws am le i'w hymweliadau.


Drwy sicrhau bod gan weithluoedd y sgiliau angenrheidiol a bod busnesau yn deall yr angen i roi gwerth a statws i'r Gymraeg wrth recriwtio, byddwn yn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio ac wrth ddefnyddio gwasanaethau.

Byddwn yn annog mwy o gyrff a busnesau i fabwysiadu egwyddor y cynnig rhagweithiol, i sylweddoli bod cwrteisi ieithyddol a pharch tuag at ddewis iaith yn gallu creu cymaint o ewyllys da ymysg defnyddwyr, ac y dylem bob amser anelu at allu cynnig y gwasanaeth sydd yn ateb yr angen ieithyddol, yn hytrach na disgwyl i bobl orfod gofyn amdano.

I'r perwyl hwnnw, bydd angen sicrhau cefnogaeth ymarferol i fusnesau er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, ac arwyddion a deunyddiau ysgrifenedig.

I adleisio'r flaenoriaeth ym maes **iaith dysgu** hefyd, byddwn yn gweithio gyda busnesau a sefydliadau sydd yn rhoi statws a phwys ar y Gymraeg er mwyn eu hyrwyddo fel cyflogwyr o ddewis ar gyfer profiad gwaith, ac er mwyn cryfhau'r cyswllt rhwng dewisiadau iaith addysgol ac iaith gwaith.





# 3.4

## Maes Blaenoriaeth 4 – laith y gymuned

## Y weledigaeth...

- Trigolion sydd yn hyderus yn defnyddio pa bynnag sgiliau sydd ganddynt yn y Gymraeg wrth fyw eu bywydau dyddiol yn ein cymunedau.
- Y Gymraeg yn cael ei gweld yn amlwg, wrth gynnal ac wrth hysbysebu gweithgareddau a bod llai o weithgareddau uniaith Saesneg yn cael eu cynnal yn y cymunedau.
- Gwahanol garfanau cymdeithasol a chymunedol, a siaradwyr llai parod, y teimlo eu bod yn rhan o'r "gymuned Gymraeg".
- Gweithio i sicrhau bod mwy o ddigwyddiadau cymunedol yn gynhwysol – bod dysgwyr a siaradwyr llai hyderus yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.
- Cynghorau a grwpiau cymunedol yn ymwybodol o'u rôl posib ac yn cael cefnogaeth i drefnu a chynnal gweithgareddau sydd yn mynd ati'n bwrpasol i hybu'r Gymraeg.
- Pobl ifanc yn cael eu hannog i fod yn arweinwyr cymunedol ac i drefnu gweithgareddau yn eu cymunedau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd iaith cyfoedion.
- Y Gymraeg yn cael blaenoriaeth amlwg mewn cynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a datblygiadau yn cyfrannu yn gadarnhaol at ymdrechion i ddiogelu a chryfhau sefyllfa'r iaith yn ein cymunedau.

## Y darlun ystadegol...

Mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015) yn dangos bod nifer cynyddol o bobl yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, ond heb fod yn rhugl, gyda'r nifer wedi cynyddu yng Ngwynedd o 13,800 yn 2004-06 i 19,400 yn 2013-15.

## Beth sydd angen digwydd nesaf?

**Mae'r fenter iaith yng Ngwynedd, Hunaniaith, yn rhan o'r Cyngor, ac felly bydd eu gwaith nhw a'u partneriaid yn gwbl hanfodol er mwyn cyflawni'r weledigaeth yn y maes hwn.**

Bydd Hunaniaith yn parhau i ddatblygu cynlluniau, ar y cyd gyda phartneriaid a mudiadau cymunedol, fydd yn:

- rhoi cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn cyd-destunau newydd ac amrywiol
- chwilio am gyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg
- rhoi cyfleoedd ymarfer a magu hyder i'r rhai sy'n llai parod i siarad neu sydd yn siaradwyr newydd
- cynnig cefnogaeth i grwpiau gwirfoddol a chynrychiolwyr cymunedol
- codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rôl sydd gan bawb i chwarae wrth gynnal yr iaith, ac i ledaenu'r balchder yn y Gymraeg fel iaith fyw.

Bydd Hunaniaith hefyd yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Ieuencid er mwyn sicrhau bod cyfleoedd amrywiol ar gael i bobl ifanc, sydd mewn cyfnod mor fregus a ddylanwadol yn eu bywydau, i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Byddwn hefyd yn defnyddio cynlluniau megis PCAI (prosiect cefnogi arferion iaith pobl ifanc) er mwyn magu hyder a sgiliau pobl ifanc i drefnu gweithgareddau a chynyddu defnydd cyfoedion o'r Gymraeg.

Byddwn hefyd yn ceisio cydweithio gyda sefydliadau eraill sydd yn gweithio yn gymunedol, megis Grŵp Cynefin, Cartrefi Cymunedol Gwynedd a Pontio er mwyn sicrhau'r dylanwad ehangaf posib, ac yn cynnig cefnogaeth i leoliadau sydd yn cynnal gweithgareddau teuluol ac yn ystod gwyliau ysgol er mwyn cynyddu'r cynnig Cymraeg.

Er mwyn ategu'r gwaith hwn, mae'n hollbwysig bod cynrychiolwyr cymunedol ac aelodau etholedig yn ymwybodol o'u rôl a'u dylanwad, ac yn defnyddio'r wybodaeth leol sydd ganddynt i gyfeirio pobl a busnesau am gymorth, ac i sicrhau bod y Gymraeg yn cael chwarae teg mewn digwyddiadau o bob maint yn ein cymunedau. Byddai codi statws yr iaith o fewn rhai digwyddiadau mawrion yn enwedig, a'u gweld yn rhoi lle amlwg i ddarparwyr ac adloniant Cymraeg, yn dangos i bobl ifanc a'r gymuned yn ehangach bod gwerth i'r iaith ym mhob maes.

Bydd hefyd yn hollbwysig sicrhau bod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth deg o fewn polisiau a chynlluniau strategol y Cyngor sydd yn mynd i effeithio ar y cymunedau, a sicrhau bod unrhyw asesiadau effaith ar gynigion a pholisiau newydd yn ystyried unrhyw effaith posib ar allu'r trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg.

Bydd yr uned iaith ac uned Gynllunio'r Cyngor yn parhau i gydweithio er mwyn datblygu arbenigedd cynllunio ieithyddol yn y maes hwnnw. Bydd yr uned iaith yn rhoi mewnbyn arbenigol ac annibynnol i'r uned gynllunio er mwyn gwarchod buddiannau ieithyddol o fewn y broses gynllunio.



## 3.5

# Maes Blaenoriaeth 5 – Ymchwil a thechnoleg – gosod y seiliau cywir

## Y weledigaeth...

- Mwy o bobl yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio technoleg.
- Cefnogi twf yn y sector technoleg drwy hybu datblygiadau newydd a datblygu sgiliau pobl ifanc yn y maes.
- Mwy o sefydliadau cyhoeddus ac addysgol yn defnyddio meddalwedd a thechnoleg cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu gwell dealltwriaeth o arferion pobl wrth ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn gallu canfod ffyrdd newydd o ddylanwadu ar arferion iaith.

## Beth sydd angen digwydd nesaf?

Byddwn yn ceisio manteisio ar ein sefyllfa unigryw, a'r crynodiad uchel o siaradwyr Cymraeg yn y sir, er mwyn deall arferion a thueddiadau pobl wrth ddefnyddio'r Gymraeg, ac i geisio cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg – ac yn benodol felly wrth ddefnyddio technoleg.

Byddwn yn datblygu'r berthynas gyda Phrifysgol Bangor, a Phrifysgolion eraill Cymru er mwyn canfod cyfleoedd i gyfrannu at waith ymchwil ym maes cynllunio ieithyddol a newid ymddygiad, fydd yn ei dro yn ein helpu ni i ddeall sut mae pobl yn defnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau ac i addasu i'r newidiadau hynny. Byddwn yn cydweithio yn benodol gyda Phrifysgol Bangor ar fodelau newid ymddygiad, ac i gynnig cyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o elfennau ymarferol cynllunio ieithyddol, ac er mwyn cyfrannu at arbenigedd yn y maes.

Fel Cyngor byddwn yn edrych ar brosiectau fydd yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ar y we, ar y cyfryngau cymdeithasol ac wrth ddefnyddio hunanwasanaeth, ac yn ystyried sut orau i gyflwyno'r Gymraeg yn y cyd-destunau yma er mwyn dylanwadu a chynyddu defnydd ohoni.

## 4. Gweithredu'r Cynllun Hybu

Mae'r Cynllun hwn yn canolbwyntio yn bennaf ar y meysydd hynny y mae gan y Cyngor ddylanwad uniongyrchol drostynt, ac ar waith fydd yn cael ei arwain gan adrannau o fewn y Cyngor. Fodd bynnag, gan fod blaenoriaethau a chynlluniau sawl asiantaeth a chorff arall yn gorgyffwrdd ar draws y meysydd blaenoriaeth, bydd gan sawl sefydliad cyhoeddus a chymunedol rôl allweddol i'w chwarae wrth hybu'r Gymraeg ac wrth weithredu'r Cynllun hwn hefyd.

Er mwyn sicrhau bod ein cynlluniau'n cael yr effaith gorau posib a'u bod yn cyfrannu tuag at ymdrechion i gynyddu defnydd o'r Gymraeg – ac o ganlyniad yn nifer y siaradwyr - bydd angen sicrhau llwyfan priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth a chydlynu ymdrechion, ynghyd â monitro cynnydd prosiectau ar y cyd.

Wrth gydweithio ar draws Gwynedd a Môn, drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er enghraifft gellir rhannu adnoddau, arbenigedd a syniadau er mwyn datblygu'r cynnig Cymraeg wrth gyflwyno gwasanaethau.

Bydd cynnal perthynas effeithiol gyda sefydliadau megis Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc a sawl sefydliad arall sydd yn derbyn arian drwy grant hybu'r Gymraeg y Llywodraeth hefyd yn allweddol er mwyn sicrhau nad oes dyblygu gwaith, a bod ein hymdrechion i warchod a hyrwyddo'r iaith yn ein cymunedau yn gweithio tuag at yr un nod.

Mae'r prif bartneriaid sydd eisoes wedi eu hadnabod yn cynnwys:

Gwasanaethau mewnol:  
Blynyddoedd Cynnar  
Adran Addysg  
Llyfrgelloedd  
Gwasanaeth Ieuencid  
Gwasanaethau Busnes  
Economi a Chymuned  
Adran Gynllunio

Hunaniaith  
Menter Iaith Bangor  
Swyddog Byd Busnes (Llywodraeth Cymru a Mentrau Iaith)

Prifysgol Bangor  
Mudiad Meithrin  
Cymraeg i Blant  
Gwasanaeth Iechyd  
Parc Cenedlaethol Eryri  
Ymddiriedolaeth Genedlaethol  
Urdd  
Ffermwyr Ifanc  
Grŵp Llandrillo Menai  
Cartrefi Cymunedol Gwynedd  
Grŵp Cynefin  
Cynghorau Tref a Chymuned  
Darparwyr a mudiadau cymunedol

Bydd Rhaglen Waith flynyddol y Cynllun Hybu (bydd rhaglen Blwyddyn 1 yn cael ei gyhoeddi gyda'r drafft terfynol hwn) yn manylu ar y syniadau sydd gennym ar gyfer cydweithio a gweithredu er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Bydd hyn yn ogystal â chefnogi'r llu o weithgareddau ac ymgyrchoedd i hyrwyddo'r Gymraeg a gynhelir gan gymunedau yn uniongyrchol eu hunain.

Y nod yw fod yr iaith Gymraeg a hyrwyddo defnydd o'r iaith yn dod yn rhan naturiol o bolisi a gweithrediad cynlluniau economaidd, adfywio, cynllunio, polisi tai, addysg a chymhathu, a bod y Gymraeg a chynllunio ieithyddol yn rhan greiddiol o ddatblygu cynlluniau, strategaethau, rhaglenni, polisiâu, prosiectau a gweithgareddau a ddarperir ac a gynhelir eisoes yng Ngwynedd.

## **Rhaglen Waith Gychwynnol Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023**

### **Cyflwyniad:**

Cynigir y rhaglen waith hon fel man cychwyn ar gyfer gweithredu ar y blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Hybu. Mae'n amlygu cynlluniau sydd yn rhan o waith y Cyngor ar hyn o bryd ac hefyd yn rhoi awgrymiadau ar gyfer prosiectau y gellir eu datblygu, ar y cyd gyda sefydliadau eraill, dros gyfnod y Cynllun.

Bydd y rhaglen waith hon yn ddogfen fyw, fydd yn cael ei diweddarau a'i haddasu wrth i drafodaethau a chynlluniau ddatblygu. Bydd manylion am union brosiectau neu ymrwymadau cydweithio yn cael eu hychwanegu wrth iddynt ddod yn gliriach, ac wrth i feysydd a chyfleoedd newydd godi mewn trafodaethau gyda'r sefydliadau partner.

O dan bob maes blaenoriaeth felly, rydym yn eich atgoffa o'r hyn rydym yn ei nodi yn y Cynllun Hybu fel yr hoffem ei weld yn digwydd, a pha gamau yr ydym yn gobeithio eu cymryd er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y maes hwnnw.

## Maes Blaenoriaeth 1 – Iaith y teulu

### Y weledigaeth...

- Gwell cydweithio rhwng asiantaethau partner er mwyn sicrhau bod darparwyr gofal cyfrwng Cymraeg yn cael eu monitro a'u cefnogi yn briodol.
- Gwell dealltwriaeth ymysg rhieni o werth trosglwyddo'r Gymraeg i blant, ac o fanteision amlieithrwydd.
- Cynnydd yn nifer y cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant cyn oed ysgol
- Cynnydd yn nifer y rhieni sydd yn dysgu Cymraeg ac yn defnyddio'r sgiliau hynny gyda'u teuluoedd.
- Cynnydd yn nifer y plant o aelwydydd lle caiff mwy nag un iaith ei siarad sydd yn gallu'r Gymraeg.

### Camau gweithredu

- Sefydlu trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth sirol ar gyfer y maes Blynnyddoedd Cynnar, gyda'r nod o:
  - osgoi dyblygu a sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu yn briodol
  - cydweithio ar raglen hyfforddiant ar gyfer gweithwyr blynnyddoedd cynnar
  - datblygu syniadau megis sefydlu Siarter Iaith ar gyfer darparwyr gofal cyn oed ysgol
  - canfod cyfleoedd cydweithio er mwyn cynyddu cyfleoedd chwarae a dysgu Cymraeg i'r teulu.
- Cynnal hyfforddiant ar gyfer darparwyr gofal a darparwyr gweithgareddau i blant cyn oed ysgol a'u rheini er mwyn:
  - datblygu eu dealltwriaeth o fanteision amlieithrwydd a'r modd y gallant ddylanwadu ar agweddau rhieni y byddant yn dod i gyswllt â nhw
  - datblygu eu dealltwriaeth am sut i gefnogi dysgwyr
  - datblygu sgiliau cyflwyno yn ddwyieithog
- Cynnig cefnogaeth a chydweithio gyda darparwyr gweithgareddau i gynyddu nifer y gweithgareddau teuluol sydd yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, ac sydd yn rhoi cyfle i blant a theuluoedd ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau anffurfiol a chefnogol.



## 3.2 Maes Blaenoriaeth 2 – Iaith dysgu

### Y weledigaeth...

- Ysgolion sydd yn rhoi bri a gwerth i'r Gymraeg ac yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu drwy barhau i weithredu'r Siarter Iaith a Strategaeth Uwchradd
- Cynnydd yn nifer y bobl ifanc sydd yn dewis astudio ac yn derbyn cymwysterau neu achrediadau cydnabyddedig drwy gyfrwng y Gymraeg
- Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd ac i addysg ôl-orfodol.
- Mwy o gyfleoedd dysgu estynedig yn cael eu cynnig i bobl ifanc - ar ffurf profiad gwaith a phrentisiaethau gyda chyflogwyr sydd yn rhoi statws amlwg i'r Gymraeg – fydd yn datblygu dealltwriaeth pobl ifanc o'r angen am sgiliau Cymraeg ar gyfer y gweithle

### Camau gweithredu

- Gweithredu ar flaenoriaethau cyfredol cynlluniau'r Adran Addysg sydd yn edrych ar ddatblygu defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destun addysgol a chymdeithasol:
  1. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
  2. Siarter Iaith ysgolion Cynradd
  3. Strategaeth Iaith Uwchradd
- Sicrhau bod cyfleoedd cynyddol i bobl ifanc ennill cymwysterau ac achrediadau y tu hwnt i'r ddarpariaeth addysg ac mewn meysydd amrywiol fydd yn datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg.  
Gwneir hyn drwy ddarparu cyfleoedd yn uniongyrchol ac hefyd drwy ddylanwadu ar ddarparwyr ac achredwyr cenedlaethol.
- Cydlynu gwaith gyda'r gwasanaeth leuenctid i sicrhau bod mwy o gyfleoedd dysgu allgyrsiol ac anffurfiol yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny yn gyson ar draws y sir.
- Datblygu prosiect ar y cyd rhwng darparwyr addysg a chyflogwyr, er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc am yr angen am sgiliau yn y Gymraeg ar gyfer swyddi o bob lefel, gan edrych ar sicrhau cyfleoedd profiad gwaith ffurfiol ac anffurfiol, a datblygu rhwydwaith rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr addysg a chyflogwyr.

### 3.3 Maes Blaenoriaeth 3 – Iaith gwaith a gwasanaeth

#### Y weledigaeth...

- Cynnydd yn nifer y trigolion sydd yn defnyddio'r Gymraeg wrth weithio a defnyddio gwasanaethau – wyneb yn wyneb ac arlein
- Gwella ymwybyddiaeth ymysg perchnogion a rheolwyr busnesau am werth sgiliau Cymraeg ymysg eu gweithlu a chynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.
- Cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd y gall technoleg ac adnoddau Cymraeg eu cynnig i gynyddu defnydd a hyder o'r Gymraeg yn y gwaith.
- Y Gymraeg yn cael lle canolog mewn trefniadau cydweithio ac mewn cynlluniau strategol traws-sirol

#### Camau gweithredu

- Cydweithio ar brosiect y Cynllun Llesiant drwy Fwrdd Gwasanaethau Gwynedd a Môn i annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cyswllt cyntaf gyda gwasanaethau cyhoeddus.
- Gweithredu prosiect Cynllun y Cyngor efo'r bwriad o annog busnesau i ddefnyddio'r iaith wrth gynnig gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys busnesau a threfnwyr digwyddiadau ar draws sawl sector.
- Parhau i gydweithio gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ar brosiectau sydd yn cynnig arweiniad a hyfforddiant i'r sector gofal cychwynnol.
- Ymchwilio i gyfleoedd posib i gyfrannu at gryfhau a datblygu sectorau twf yn y sir, megis technoleg a datblygu apiau, gan edrych ar ddatblygu sgiliau pobl ifanc yn y maes
- Darparu hyfforddiant o fewn y Cyngor fydd yn cynyddu hyder a defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith ac yn edrych yn benodol i ddatblygu sgiliau iaith staff mewn meysydd gwaith sydd yn cael eu hystyried yn rhai rheng flaen, sensitif:
  - Ieuenctid
  - Hamdden
  - Gofal

### 3.4 Maes Blaenoriaeth 4 – Iaith y gymuned

#### Y weledigaeth...

- Trigolion sydd yn hyderus yn defnyddio pa bynnag sgiliau sydd ganddynt yn y Gymraeg wrth fyw eu bywydau dyddiol yn ein cymunedau.
- Y Gymraeg yn cael ei gweld yn amlwg, wrth gynnal ac wrth hysbysebu gweithgareddau a bod llai o weithgareddau uniaith Saesneg yn cael eu cynnal yn y cymunedau
- Gwahanol garfanau cymdeithasol a chymunedol, a siaradwyr llai parod, y teimlo eu bod yn rhan o'r "gymuned Gymraeg"
- Gweithio i sicrhau bod mwy o ddigwyddiadau cymunedol yn gynhwysol – bod dysgwyr a siaradwyr llai hyderus yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg
- Cyngorau a grwpiau cymunedol yn ymwybodol o'u rôl posib ac yn cael cefnogaeth i drefnu a chynnal gweithgareddau sydd yn mynd ati'n bwrpasol i hybu'r Gymraeg
- Pobl ifanc yn cael eu hannog i fod yn arweinwyr cymunedol ac i drefnu gweithgareddau yn eu cymunedau sydd yn dylanwadu ar ddefnydd iaith cyfoedion
- Y Gymraeg yn cael blaenoriaeth amlwg mewn cynlluniau economaidd, tai a chynllunio yn lleol er mwyn sicrhau bod unrhyw gynlluniau a datblygiadau yn cyfrannu yn gadarnhaol at ymdrechion i ddiogelu a chryfhau sefyllfa'r iaith yn ein cymunedau.

#### Camau gweithredu

- Gwella cydweithio rhwng y Cyngor a grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau bod budd-ddeiliaid cymunedol yn cael llais wrth bennu lle mae adnoddau ac ymyrraeth yn cael eu cyfeirio.
- Cynnal sesiynau rheolaidd gyda chynghorwyr a chynrychiolwyr cynghorau a mudiadau cymunedol er mwyn codi ymwybyddiaeth am eu rôl nhw wrth hybu'r Gymraeg yn y gymuned,
- Cynnal ymyrraeth wedi ei dargedu ar ardaloedd penodol, drwy waith hunaniaith, fydd yn ceisio:
  - Sicrhau cyfleoedd amrywiol a chyson i deuluoedd, pobl ifanc, a dysgwyr ddod at ei gilydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau
  - Cynnig cefnogaeth i grwpiau a mudiadau cymunedol drefnu a chynnal gweithgareddau
  - Cynnig cefnogaeth i fusnesau wneud defnydd amlycach o'r Gymraeg
- Edrych ar ffyrdd y gallwn ddylanwadu a sicrhau bod digwyddiadau mawrion sydd yn cael eu cynnal yn y sir yn defnyddio'r Gymraeg yn rhagweithiol ac yn adlewyrchu cyfansoddiad ieithyddol y sir, drwy:
  - gynnig cefnogaeth i drefnwyr digwyddiadau.
  - Monitro defnydd iaith digwyddiadau sydd yn cael eu hariannu neu yn derbyn cefnogaeth gan y Cyngor neu Lywodraeth Cymru
- Cryfhau ein dylanwad ar y sector breifat drwy'r broses gynllunio, gan gynnwys:
  - Sicrhau'r trefniadau asesu effaith (CCA) o fewn y broses gynllunio er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygwyr yn deall effaith eu cynlluniau ar y gymuned leol ac yn gosod a gweithredu mesurau lliniaru priodol.
  - Cyfrannu arbenigedd at grwpiau neu fforymau allanol yng nghyd-destun datblygiadau mawr fel Wylfa, Horizon,
  - Datblygu system rhannu gwybodaeth gyda chynghorau cymuned a'r adran gynllunio (a'r Parc Cenedlaethol) er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am geisiadau newid defnydd yn cael eu cyfeirio yn brydlon am gefnogaeth ac arweiniad.

### 3.4 Maes Blaenoriaeth 5 – Ymchwil a thechnoleg – gosod y seiliau cywir

#### Y weledigaeth...

- Mwy o bobl yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio technoleg
- Cefnogi twf yn y sector technoleg drwy hybu datblygiadau newydd a datblygu sgiliau pobl ifanc yn y maes Mwy o sefydliadau cyhoeddus ac addysgol yn defnyddio meddalwedd a thechnoleg cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu gwell dealltwriaeth o arferion pobl wrth ddefnyddio'r Gymraeg er mwyn gallu canfod ffyrdd newydd o ddylanwadu ar arferion iaith

#### Camau gweithredu

- Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar ddatblygu prosiect Arfer - sydd yn edrych ar newid patrymau ac arferion defnydd iaith cydweithwyr - er mwyn canfod ffyrdd newydd o ddylanwadu ar arferion iaith pobl a magu hyder ynddynt i ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr.
- Hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth am feysydd ymchwil ac am ganfyddiadau neu gyhoeddiadau newydd sydd yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o arferion a newidiadau yn y maes.
- Cynnig cyfleoedd profiad gwaith i fyfyrwyr mewn cyrsiau perthnasol er mwyn rhoi profiad ymarferol a chyfrannu at ddatblygu arbenigedd y dyfodol mewn cynllunio ieithyddol.
- Datblygu syniadau ar gyfer prosiectau fydd yn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyd destun technoleg.

# Eitem 10

<b>CYFARFOD</b>	<b>CYNGOR LLAWN</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>4 HYDREF 2018</b>
<b>TEITL</b>	<b>ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2017-18</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>CYFLWYNO'R ADRODDIAD I'R CYNGOR LLAWN</b>
<b>AWDUR</b>	<b>GERAINT OWEN, PENNAETH CEFNOGAETH GORFFORAETHOL</b>
<b>AELOD CABINET</b>	<b>CYNGHORYDD DYFRIG SIENCYN ARWEINYDD Y CYNGOR</b>
<b>ARGYMHELLIAD</b>	<b>DERBYN YR ADRODDIAD</b>

## **1.0 CEFNDIR**

- 1.1 Mae Adroddiad Gwella Blynyddol 2017-18 Cyngor Gwynedd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn y Cyngor hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf ym mis Mawrth 2017.
- 1.2 Dylid pwysleisio nad adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor mo'r adroddiad hwn.
- 1.3 Ar sail y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr eraill, mae'r Arolygydd Cyffredinol yn nodi a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2018-19.
- 1.4 Ym marn yr Archwilydd "Mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus" gan ychwanegu "yn seiliedig ar y gwaith, ac yn gyfyngedig i'r gwaith a gyflawnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio a gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2018-19".
- 1.5 Mae'r Adroddiad yn datgan na wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol gyflwyno unrhyw argymhellion ffurfiol i wella ond byddwn yn nodi iddo wneud rhai cynigion ar gyfer gwella sy'n ymddangos yn yr adroddiad.
- 1.6 Bydd swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno'r adroddiad i'r Aelodau gan dynnu sylw at y prif bwyntiau.
- 1.7 Bydd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau i swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru ar sail cynnwys yr adroddiad.

## **2.0 ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad.



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2017-18

## Cyngor Gwynedd

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2018  
Cyfeirnod y ddogfen: 753A2018-19



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol ar ran Archwilydd  
Cyffredinol Cymru gan Alan Hughes, Charlotte Owen, Paul  
Goodlad a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Huw Rees.

**Adrian Crompton**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**Swyddfa Archwilio Cymru**  
**24 Heol y Gadeirlan**  
**Caerdydd**  
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd i'r diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Y mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu i ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.



# Cynnwys

<b>Adroddiad cryno</b>	<b>4</b>
Gwaith archwilio perfformiad 2017-18	4
Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus	4
Argymhellion	5
Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18	6
<b>Atodiadau</b>	<b>11</b>
Atodiad 1 – Statws yr adroddiad	11
Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol	12
Atodiad 3 – Argymhellion yr adroddiad cenedlaethol 2017-18	15

# Adroddiad cryno

## Gwaith archwilio perfformiad 2017-18

- 1 Wrth bennu ehangder y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth gronedig o waith archwilio ac arolygu, yn ogystal â ffynonellau gwybodaeth eraill a oedd ar gael, gan gynnwys dulliau Cyngor Gwynedd (y Cyngor) ei hun o adolygu a gwerthuso. Ar gyfer 2017-18, gwnaethom ni waith asesu gwelliant ym mhob cyngor. Gwnaethom ni waith ym mhob cyngor yn ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd, a chynnal adolygiad ar thema safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, ac adolygiad o'r trefniadau goruchwylio a chraffu. Mewn rhai cynghorau, gwnaethom ni ategu'r gwaith hwn ag archwiliadau lleol yn seiliedig ar risg, a nodwyd yn y Cynllun Archwilio ar gyfer 2017-18.
- 2 Mae'r gwaith a wnaed ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB) diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, wedi'i nodi yn [Arddangosyn 1](#).

## Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus

- 3 Yn seiliedig ar y gwaith, ac yn gyfyngedig i'r gwaith, a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2018-19.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

- 4 O ystyried yr amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na byddem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:
- wneud cynigion ar gyfer gwella – os gwneir cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwirio yr hyn sy'n digwydd;
  - gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os gwneir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
  - cynnal arolygiad arbennig, a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
  - argymhell i weinidogion Llywodraeth Cymru eu bod yn ymyrryd mewn rhyw ffordd.
- 5 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, rydym ni wedi gwneud nifer o gynigion ar gyfer gwella ac ailadroddir y rhain yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn monitro cynnydd o'i gymharu â'r cynigion hyn ac argymhellion perthnasol a wnaed yn ein hadroddiadau cenedlaethol (**Atodiad 3**) yn rhan o'n gwaith asesu gwelliant.

## Gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18

### Arddangosyn 1: gwaith archwilio, rheoleiddio ac arolygu yr adroddwyd arno yn ystod 2017-18

Disgrifiad o'r gwaith a wnaed ers yr AGB diwethaf, gan gynnwys gwaith y rheoleiddwyr perthnasol, pan fo hynny'n berthnasol.

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
Gorffennaf 2018	<p><b>Adolygiad o Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau</b></p> <p>I ddeall 'safbwynt defnyddwyr gwasanaethau' ym mhob cyngor yng Nghymru. Yng Nghyngor Gwynedd gwnaethom ni adolygu'r gwasanaeth llyfrgelloedd. Yn arbennig, a oedd y Cyngor yn defnyddio profiadau a dyheadau defnyddwyr gwasanaethau i lywio cynllun a chyflawniad gwasanaethau.</p>	<p><b>Mae'r rhan fwyaf o bobl y gwnaethom ni siarad â nhw yn fodlon ar ansawdd a hygyrchedd eu llyfrgell, ond mae diffyg ymgysylltu cydgysylltiedig yn arwain at deimlad ymhlith defnyddwyr o beidio â bod yn gymaint o ran yn y broses o lunio'r gwasanaeth ag y gallent fod. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• arweiniodd diffygion yn null y Cyngor o adolygu'r gwasanaeth llyfrgelloedd at leihau effeithiolrwydd ei ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau a'u gallu i gyfrannu at lunio'r gwasanaeth;</li> <li>• roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaethau y gwnaethom ni siarad â nhw yn fodlon ar y gwasanaeth maent yn ei dderbyn; a</li> <li>• gall defnyddwyr gwasanaethau ddefnyddio'r gwasanaethau llyfrgelloedd yn effeithiol ond mae potensial i wella'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir gan y gwasanaeth llyfrgelloedd symudol.</li> </ul>	<p>C1 Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth rhwng staff llyfrgelloedd a rheolwyr y gwasanaeth llyfrgelloedd sydd wedi'u lleoli'n ganolog.</p> <p>C2 Cyfathrebu canlyniadau ymgynghoriadau yn y dyfodol er mwyn i ddefnyddwyr gwasanaethau allu deall y materion a godir a'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud mewn ymateb iddynt.</p> <p>C3 Gwella lefel y cymorth a roddir i ddefnyddwyr y gwasanaeth llyfrgelloedd symudol. Yn arbennig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu offer TGCh a mynediad at y rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd, lle bo hynny'n bosibl, i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau; ac</li> <li>• archwilio sut y gellid defnyddio'r gwasanaeth i alluogi trigolion gwledig i gael mynediad at wasanaethau eraill y Cyngor.</li> </ul>

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
Awst 2018	<p><b>‘Crffu: Addas ar gyfer y Dyfodol?’ Adolygiad</b></p> <p>Adolygiad o ba un a yw swyddogaethau trosolwg a chraffu'r Cyngor mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol.</p>	<p><b>Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu y Cyngor wedi gwella, fodd bynnag mae angen cryfhau trefniadau craffu yn sgil heriau'r presennol a'r dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyfleoedd i gryfhau trefniadau craffu;</li> <li>• byddai cynllunio gweithgareddau craffu yn well, defnyddio amrywiaeth ehangach o gyfraniadau, a dulliau mwy arloesol o gyflawni yn cynyddu effeithiolrwydd craffu; ac</li> <li>• mae'r Cyngor yn adolygu ei swyddogaeth graffu yn flynyddol, ac mae'r adolygiad nesaf wedi'i drefnu ar gyfer diwedd 2018.</li> </ul>	<p>C1 Parhau i ddatblygu blaenraglenni gwaith craffu i:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ddarparu sail resymegol glir ar gyfer pynciau;</li> <li>• canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau; a</li> <li>• sicrhau mai'r dull craffu a ddefnyddir yw'r un mwyaf addas ar gyfer y maes dan sylw a'r canlyniad y dymunir ei gyflawni, ac ystyried dulliau mwy arloesol o gynnal gweithgareddau craffu.</li> </ul> <p>C2 Adolygu'r math o gymorth craffu sydd ei angen i alluogi'r swyddogaeth graffu i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol.</p> <p>C3 Egluro swyddogaeth aelodau'r pwyllgor craffu a swyddogion mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad gwasanaethau, sicrhau bod aelodau'r pwyllgor yn herio perfformiad gwasanaethau yn briodol ac yn dwyn swyddogion i gyfrif.</p>

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
Tachwedd 2017	<p><b>Llythyr archwilio blynyddol 2016-17</b></p> <p>Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol a gyfyd o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn <b>Atodiad 2</b> yr adroddiad hwn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau'n ymwneud ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau.</li> <li>• Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.</li> <li>• Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Medi 2017.</li> <li>• Hyd yma, nid yw fy ngwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ar ardystio hawliadau ac enillion grantiau wedi nodi materion arwyddocaol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2017-18 na systemau ariannol allweddol.</li> </ul>	Dim

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
<b>Archwiliad perfformiad lleol ar sail risg</b>			
Awst 2018	<p><b>Adolygiad o System Wybodaeth Adnoddau Dynol</b></p> <p>Gwnaethom ni edrych ar sut yr oedd y Cyngor yn lliniaru'r risg sy'n gysylltiedig â datblygiad mewnol.</p>	<p><b>Mae system Adnoddau Dynol mewnol y Cyngor yn debygol o ddiwallu anghenion y Cyngor yn awr ac yn y dyfodol, ond er bod risgiau datblygu yn cael eu rheoli, mae angen cryfhau trefniadau rheoli prosiect.</b></p> <p>Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod y Cyngor wedi lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â sgiliau ac adnoddau datblygu; ac</li> <li>• mae trefniadau rheoli prosiect ar waith, ond nid yw'r rhain yn ddigon cynhwysfawr nac aeddfed.</li> </ul>	<p>C1 Adolygu a chryfhau trefniadau rheoli prosiect:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Creu Dogfen Sefydlu Prosiect ffurfiol, wedi'i seilio ar Gylch Gorchwyl Bwrdd Prosiect, sy'n cynnwys cyfeiriad at holl weithgareddau a dogfennau allweddol y prosiect.</li> <li>• Egluro amserlen y prosiect i osgoi'r risg o fod yn datblygu o hyd – ond byth yn cyrraedd y nod.</li> <li>• Adolygu cynllun y matrices risg prosiect i leihau'r potensial o nodi pob risg yn ganolog.</li> <li>• Sefydlu Strategaeth neu Gynllun Cyfathrebu ffurfiol a chyhoeddi adroddiadau uchafbwyntiau rheolaidd. Cynnwys Tîm Cyfathrebu y Cyngor wrth nodi enw neu frand addas ar gyfer System Swyddi Gwynedd (SSG) a'r gyfres o systemau Adnoddau Dynol.</li> <li>• Sefydlu rhaglen gwireddu buddion ffurfiol er mwyn gallu gwerthuso nodau'r prosiect datblygu yn briodol.</li> </ul> <p>C2 Adolygu opsiynau technoleg o fewn y prosiect</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella mynediad i alluogi mwy o staff (er enghraifft y rhai sydd wedi'u lleoli'n anghysbell) i ymgysylltu â'r system.</li> <li>• Rhwydweithio â chynghorau eraill i gasglu a rhannu enghreifftiau o arfer.</li> <li>• Ystyried gweithredu technoleg cwmwl.</li> </ul>

Dyddiad cyhoeddi	Disgrifiad byr	Casgliadau	Cynigion ar gyfer gwella
<b>Cynllunio ac adrodd ar welliant</b>			
Ebrill 2017	<b>Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r cynllun gwella blynyddol</b> Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella.	Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwella.	Dim.
Tachwedd 2017	<b>Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru o'r asesiad blynyddol o berfformiad</b> Adolygiad o asesiad cyhoeddedig o berfformiad y Cyngor.	Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd ar welliant.	Dim.
<b>Adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio</b>			
Nid oes unrhyw adolygiadau gan gyrff arolygu a rheoleiddio wedi'u cynnal yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.			



# Atodiadau

## Atodiad 1 – Statws yr adroddiad

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae gan awdurdodau gwella (a ddiffinnir yn gynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub) ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer [eu] swyddogaethau.'

Mae'r asesiad gwella blynyddol yn ystyried y tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Yr asesiad hefyd yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae staff Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn llunio'r adroddiad gwella blynyddol. Mae'r adroddiad yn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 24 y Mesur, trwy grynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol a gyhoeddir ar gyfer pob awdurdod. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi (o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17) a yw'n credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan adran 15.

Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd, dan rai amgylchiadau, gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), a gaiff eu hadrodd i'r awdurdod a Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Gweithgaredd ategol pwysig i'r Archwilydd Cyffredinol yw cydlynu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

## Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Dilwyn Williams  
Cyngorydd Dyfrig Seincyn  
Cyngor Gwynedd  
Shirehall Street  
Caernarfon  
LL55 1SH

**Dyddiad cyhoeddi:** 28 Tachwedd 2017

Annwyl Dilwyn a Dyfrig

### Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Gwynedd 2016-17

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 29 Medi 2017, cyhoeddodd yr Archwilydd

Cyffredinol Cymru (Archwilydd Cyffredinol) farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon (ar gyfer y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn) i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn yr adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 28 Medi 2017. Nid oes angen i'r Archwilydd Cyffredinol ddwyn unrhyw beth at eich sylw yn y llythyr hwn.

Mae'n werth nodi hefyd fod y Cyngor wedi arwain y gwaith o baratoi cyfrifon y Cyd- bwyllgor GwE Cyd-Bwyllgor a'i fod hefyd wedi paratoi Ffurflenni Blynnyddol ar gyfer Harbyrau Gwynedd, y Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) a'r Cyd- bwyllgor Cynllunio Polisi ar y Cyd. Ar 29 Medi 2017:

- Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn archwilio ddiamod ar gyfrifon GwE gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Pwyllgor.
- Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y wybodaeth yn y ffurflenni blynnyddol ar gyfer Harbyrau Gwynedd, y Cyd-bwyllgor AAA a'r Cyd-bwyllgor Cynllunio Polisi ar y Cyd yn unol ag arferion priodol.

Hysbyswyd y pwyllgorau perthnasol am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliadau hyn lle roedd yn briodol gwneud hynny. Unwaith eto, nid oes angen i'r Archwilydd Cyffredinol ddwyn unrhyw beth at eich sylw yn y llythyr hwn.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae ystyriaeth yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan mae'n cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau ar 29 Medi 2017.

Hyd yma, mae fy ngwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ar ardystio hawliadau a ffurflenni grantiau ddim wedi nodi unrhyw faterion arwyddocaol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2017-18 na systemau ariannol allweddol.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2016-17 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yng Nghynllun Archwilio.

Yn gywir



**Ian Howse**

**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

## Atodiad 3 – Argymhellion yr adroddiad cenedlaethol 2017-18

### Arddangosyn 2: argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2017-18

Crynodeb o'r cynigion ar gyfer gwella sy'n berthnasol i lywodraeth leol, sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r AGB diwethaf.

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Mehefin 2017	<a href="#"><u>Cynllunio Arbedion mewn Cyngorau yng Nghymru</u></a>	Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion na chynigion ar gyfer gwella, ond roedd cynigion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau lleol a gyflwynwyd i bob Cyngor.
Hydref 2017	<a href="#"><u>Caffael Cyhoeddus yng Nghymru</u></a>	Roedd yr adroddiad yn cynnwys saith argymhelliad. Roedd chwech o'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac un o'r argymhellion ar gyfer cyrff cyhoeddus:  A3 Roedd yn glir o'n gwaith samplu bod rhai o'r strategaethau caffael wedi dyddio, a bu ymateb cymysg hefyd i bolisiau a deddfwriaeth newydd megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn argymhell bod cyrff cyhoeddus yn adolygu eu strategaethau a'u polisiau caffael yn ystod 2017-18 ac yn flynyddol wedi hynny i sicrhau eu bod yn adlewyrchu newidiadau ehangach i bolisiau a deddfwriaeth ac yn cefnogi gwelliant parhaus.
Hydref 2017	<a href="#"><u>Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau – Crynodeb Cenedlaethol</u></a>	Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion na chynigion ar gyfer gwella, ond roedd cynigion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau lleol a gyflwynwyd i bob Cyngor. Prif ddiben yr adroddiad oedd rhoi dealltwriaeth, rhannu ymarfer presennol ac ysgogi sgysiau a thrafodaethau yn y dyfodol rhwng cyngorau a sefydliadau eraill.
Rhagfyr 2017	<a href="#"><u>Adroddiadau Ariannol Llywodraethau Lleol ar gyfer 2016-17</u></a>	Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion na chynigion ar gyfer gwella.

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Ionawr 2018	<a href="#">Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd</a>	<p>A1 Mae gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd a lleihau'r galw. Mae'r rhain yn wahanol iawn i wasanaethau digartrefedd a arweinir gan waith achos traddodiadol, ac mae gwaith atal yn gofyn am sgiliau newydd a rhyngweithio'n gynnar â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr. Gwelsom fod cynnydd awdurdodau lleol wrth ddiwygio ac atgyfnerthu gwasanaethau yn amrywiol (paragraffau 1.12 i 1.20). <b>Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sicrhau bod eu staff yn ddigon medrus i ddelio â gofynion newydd cyfryngu, datrys problemau, negodi a dylanwadu gyda phobl ddigartref; ac</li> <li>• adolygu ac ad-drefnu eu gwasanaethau i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl ddigartref a rhai a allai fod yn ddigartref er mwyn atal digartrefedd.</li> </ul> <p>A2 Darparodd Llywodraeth Cymru arian i helpu awdurdodau lleol i weithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 ac mae'r cyllid hwn wedi bod yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall gwasanaethau atal newydd gael eu datblygu. Mae'r arian ar gael tan 2019-20 ond mae angen i awdurdodau sicrhau eu bod yn defnyddio'r cyfleoedd a gynigir gan yr adnoddau hyn i ddiwygio eu gwasanaethau er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau yn y dyfodol (paragraffau 1.21 i 1.28). <b>Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn ddiwygio'r ffordd yr ariennir gwasanaethau digartrefedd ganddynt er mwyn sicrhau y gallant barhau i ddarparu'r dull atal ehangaf posibl sydd ei angen. Dylai adolygiadau ystyried defnyddio arian Cefnogi Pobl yn ogystal ag arian o Gronfa Gyffredinol y Cyngor i gefnogi'r ffordd y cyflawnir dyletswyddau digartrefedd yr awdurdod.</b></p> <p>A3 Gall y ffordd y caiff gwasanaethau eu trefnu a'u rheoli ar y pwynt cyswllt cyntaf ddylanwadu'n sylweddol ar ba mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth reoli a lleihau'r galw. Gall gwasanaethau y mae'n hawdd cael gafael arnynt a ddefnyddir i'r eithaf, sy'n osgoi dull porthgadw ac sy'n canolbwyntio ar atebion cynnar, wella'r rhagolygon ar gyfer atal digartrefedd yn llwyddiannus. Gwelsom fod systemau pwynt mynediad rhai awdurdodau wedi'u cynllunio'n wael, sy'n effeithio'n andwyol ar ragolygon yr awdurdod ar gyfer ymyrraeth gynnar i atal digartrefedd rhag digwydd (paragraffau 2.4 i 2.11). <b>Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• llunio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod cyswllt cynnar â defnyddwyr gwasanaethau;</li> <li>• defnyddio dulliau 'brysbennu' i nodi a hidlo unigolion sy'n gofyn am help er mwyn pennu'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'u hanghenion; a</li> <li>• phrofi effeithiolrwydd gwasanaethau pwynt cyswllt cyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.</li> </ul>

## Tud. 62

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Ionawr 2018	<a href="#">Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd</a>	<p>A4 Mae pennu safonau gwasanaeth clir sy'n nodi'r hyn y mae'r awdurdod yn ei ddarparu ac y mae'n gyfrifol amdano yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae ganddynt hawl i'w gael a beth sydd angen iddynt ei ddatrys eu hunain. Gwelsom nad yw awdurdodau bob amser yn rhoi gwybodaeth glir, cryno ac o ansawdd da er mwyn helpu pobl i ddod o hyd i'r cyngor cywir yn gyflym ac yn effeithlon (paragraffau 2.12 i 2.17). <b>Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi safonau gwasanaethau sy'n nodi'n glir beth yw eu cyfrifoldebau a sut y byddant yn darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae ganddynt hawl i'w gael a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud drostynt hwy eu hunain. Dylai safonau gwasanaethau:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gael eu hysgrifennu mewn iaith hygyrch a syml;</li> <li>• bod yn fanwl gywir ynghylch beth y gall ymgeiswyr ei ddisgwyl a beth na allant ei ddisgwyl, a phryd y gallant ddisgwyl iddo gael ei ddatrys;</li> <li>• nodi'n glir rôl yr ymgeisydd yn y broses a sut y gallant helpu'r broses i redeg yn fwy llyfn a chyflym;</li> <li>• cael eu llunio ar y cyd ag arbenigwyr pwnc a chynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth(au);</li> <li>• integreiddio'n effeithiol â'r broses asesu unigol;</li> <li>• cynnig dewisiadau amgen hyfyw i wasanaethau'r awdurdod; a</li> <li>• nodi'r prosesau apeliadau a chwynion. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar degwch a chydarddoldeb i bawb dan sylw a dylent fod ar gael i bawb.</li> </ul> <p>A5 Mae angen i awdurdodau lleol lunio gwasanaethau i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon, ond mae'r safonau cyfredol yn rhy amrywiol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn gallu cael gafael ar y cyngor sydd ei angen arnynt (paragraffau 2.18 i 2.24). <b>Er mwyn gwella perfformiad cyfredol rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud defnydd gwell o'u gwefannau er mwyn helpu i reoli'r galw drwy:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• profi defnyddioldeb ac effeithiolrwydd y wybodaeth gyfredol ar wefannau gan ddefnyddio ein llinellau ymholi a nodir yn Atodiad 5;</li> <li>• cynyddu a gwella ystod, ansawdd a chwmpas gwybodaeth ar y we; gwneud gwell defnydd o raglenni ar-lein; a</li> <li>• chysylltu'n fwy effeithiol â gwybodaeth gan ddarparu'r arbenigol ac arbenigwyr cyngor, fel Cyngor ar Bopeth.</li> </ul>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Ionawr 2018	<a href="#">Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd</a>	<p>A6 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd newydd ar wasanaethau cymdeithasol a chymdeithasau tai sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gydweitho â gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol i atal a mynd i'r afael â digartrefedd. Gwelsom nad yw'r trefniadau hyn yn gweithio'n effeithiol ac nad yw ymatebion gwasanaethau i atal digartrefedd a helpu pobl ddigartref bob amser yn cael eu darparu, ac nad ydynt ychwaith yn gyson effeithiol (paragraffau 3.13 i 3.25). <b>Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn nodi ac yn cytuno ar yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan bartneriaid, gan nodi sut y byddant yn cydweithio er mwyn lleddfu digartrefedd. Dylai'r cytundeb hwn gael ei adolygu'n rheolaidd a dylai perfformiad partneriaid gael ei adolygu er mwyn nodi meysydd i'w gwella.</b></p> <p>A7 Nid yw systemau monitro awdurdodau lleol na dulliau gwerthuso er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'u cyfrifoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gweithio cystal â'r disgwyl (paragraffau 3.35 i 3.39). <b>Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â gwendidau yn eu dull monitro cydraddoldebau, ac yn sicrhau bod eu gwasanaeth digartrefedd yn cofnodi ac yn gwerthuso data priodol yn gywir er mwyn dangos mynediad cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaethau y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd tuag atynt.</b></p> <p>A8 MGall rheoli'r galw fod yn heriol i awdurdodau lleol. Mae rhai gwersi clir i'w dysgu o ran gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014 a'r dyletswyddau atal digartrefedd y gellir eu cymhwyso at reoli'r galw mewn gwasanaethau eraill (paragraffau 4.24 i 4.27). <b>Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r rhestr wirio a nodir yn Atodiad 10 i gynnal hunanasesiad ar wasanaethau, er mwyn helpu i nodi opsiynau i wella'r ffordd y gallant helpu i reoli'r galw.</b></p>



Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Chwefror 2018	<a href="#">Addasiadau Tai</a>	<p>Roedd yr adroddiad yn cynnwys naw argymhelliad. Roedd un o'r argymhellion i Lywodraeth Cymru ac roedd wyth ohonynt i awdurdodau lleol a/neu sefydliadau cyflenwi:</p> <p>A1 Ceir llawer o ffynonellau cyllid a pholisïau ar gyfer addasiadau, ac mae hynny'n golygu bod safon y gwasanaeth a dderbynnir gan bobl anabl a phobl hŷn yn amrywio'n helaeth (paragraffau 1.5 i 1.9). I fynd i'r afael â'r anghysondebau hyn, <b>rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru osod safonau ar gyfer pob addasiad er mwyn sicrhau bod pobl anabl a phobl hŷn yn derbyn gwasanaeth o'r un safon waeth pa le y maent yn byw, pwy yw eu landlord, a ph'un a ydynt yn berchen ar eu cartref eu hunain ai peidio.</b></p> <p>A2 Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn glir ynghylch sut y gall eu gwaith ar addasiadau gael effaith gadarnhaol ar bobl anabl a phobl hŷn, ac maent wedi gosod nodau addas sy'n creu ffocws wrth weithredu. Mae sefydlu'r nodau strategol cywir ar gyfer addasiadau hefyd yn creu sail glir ar gyfer penderfynu pwy ddylai gael blaenoriaeth gan wasanaethau, a sut ac ymhle y dylid defnyddio adnoddau. Fodd bynnag, gwelsom fod amryw o ddiffygion yn y trefniadau polisi cyfredol, ac nad yw gyrff cyhoeddus yn sicrhau'r budd mwyaf wrth fuddsoddi (paragraffau 3.8 i 3.15). <b>Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol weithio gydag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i atgyfnerthu eu ffocws strategol wrth ddarparu addasiadau drwy:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• osod amcanion strategol priodol ar gyfer addasiadau sy'n canolbwyntio ar lesiant ac annibyniaeth;</li> <li>• gwella ansawdd yr wybodaeth am y galw am addasiadau drwy defnyddio ystod eang o ddata i asesu angen, gan gynnwys ceisio a defnyddio gwybodaeth gan bartneriaid sy'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol; a</li> <li>• chysylltu'r system ar gyfer rheoli a chyflenwi addasiadau â pholisïau a chofrestrau tai addasedig er mwyn gwneud y defnydd gorau o gartrefi a addaswyd eisoes.</li> </ul>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Chwefror 2018	<a href="#">Addasiadau Tai</a>	<p>A3 Mae'n bwysig sicrhau bod gan bawb y gallai fod angen gwaith addasu arnynt r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn gwneud cais am waith addasu a threfnu bod y gwaith hwnnw'n cael ei gwblhau. Gan hynny, mae'n hanfodol cael gwybodaeth hygyrch o ansawdd da er mwyn i sefydliadau cyflenwi arddangos mynediad teg a thryloywder. Fodd bynnag, cawsom hyd i wendidau yn ansawdd a darpariaeth gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch addasiadau tai (paragraffau 2.6 i 2.15). <b>Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi ddarparu gwybodaeth am addasiadau tai yn Gymraeg ac yn Saesneg, mewn ffurfweddau hygyrch gan gynnwys Braille, ffontiau mawr, fersiynau sain ac ieithoedd eraill. Dylid hyrwyddo gwybodaeth yn eang drwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a gwybodaeth gyhoeddedig, a hefyd drwy bartneriaid allweddol. Yn ddefnyddiol, dylid cynhyrchu gwybodaeth ar y cyd ac alinio polisiau rhwng cyrff cyflenwi er mwyn ehangu eu cwrpas a chynyddu'r defnydd ohonynt.</b></p> <p>A4 Gan fod nifer helaeth o lwybrau er mwyn cyrchu gwasanaethau, mae angen i sefydliadau cyflenwi sicrhau bod ganddynt systemau cadarn i ymdrin â cheisiadau yn gyflym ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod y prosesau a ddefnyddir gan sefydliadau cyflenwi yn amrywio'n helaeth, a'u bod yn aml yn creu anawsterau i bobl anabl a phobl hŷn sydd yn ceisio cymorth (paragraffau 2.16 i 2.19). <b>Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi symleiddio'r broses ymgeisio drwy greu un ffurflen gais gynhwysfawr ar gyfer pob sefydliad o fewn ardal awdurdod lleol. Dylai'r ffurflen fod ar gael drwy bartneriaid ac ar-lein.</b></p> <p>A5 Gall amrywiaeth o ffactorau achosi oedi wrth addasu (paragraffau 2.20 i 2.33). Er mwyn gwella prydlondeb wrth gyflenwi, <b>argymhellwn y canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad i weld a ddylai awdurdodau lleol barhau i ddefnyddio'r prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs);</li> <li>• bod awdurdodau lleol yn darparu neu'n defnyddio gwasanaethau asiantaeth gwella cartrefi i gynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fynd ar drywydd eu ceisiadau DFG yn effeithlon;</li> <li>• bod sefydliadau cyflenwi yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio i gyflymu a symleiddio'r broses ar gyfer addasiadau y mae angen cymeradwyaeth ar eu cyfer;</li> <li>• bod sefydliadau cyflenwi yn defnyddio Aseswyr yr Ymddiriedir Ynddynt i gynnal asesiadau ar gyfer gwaith addasu o natur symlach; a</li> <li>• bod Llywodraeth Cymru'n symleiddio ei phrosesau cymeradwyo ar gyfer Grantiau Addasiadau Ffisegol (PAGs).</li> </ul>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Chwefror 2018	<a href="#">Addasiadau Tai</a>	<p>A6 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac asiantaethau Gofal a Thrwsio wedi sefydlu prosesau i benodi, goruchwylio a rheoli perfformiad adeiladwyr ac/neu contractwyr. Fodd bynnag, gwelsom amrywiaeth eang yn y modd y mae sefydliadau cyflenwi'n trefnu gwaith adeiladu, yn ei roi ar contract ac yn ei gwblhau (paragraffau 2.37 i 2.44). <b>Argymhellwn fod sefydliadau cyflenwi:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn cyflwyno systemau ffurfiol er mwyn achredu contractwyr i gyflawni gwaith addasu. Dylai'r rhain gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>– safonau gofal cwsmeriaid fel cadw apwyntiadau, cadw'r safle'n daclus, rheoli sŵn ac ati;</li> <li>– archwilio sefyllfa ariannol, statws treth a TAW;</li> <li>– hyrwyddo arferion iechyd a diogelwch da;</li> <li>– gofyniad i ddefnyddio cynlluniau gwarant;</li> <li>– sicrhau y delir yswiriant digonol; a</li> <li>– gofyn am eirdaon.</li> </ul> </li> <li>• defnyddio cytundebau fframwaith a chontractau drwy bartneriaeth i gyflenwi addasiadau;</li> <li>• mynd i'r afael â gwendidau wrth roi addasiadau ar contract, diweddarau'r Rhestr Cyfraddau a ddefnyddir i roi gwaith allan ar dendr a chynnal ymarferion tendro cystadleuol er mwyn cefnogi gwerth am arian wrth roi gwaith allan ar contract;</li> <li>• datblygu systemau effeithiol i reoli a gwerthuso perfformiad contractau drwy: <ul style="list-style-type: none"> <li>– bennu ystod briodol o wybodaeth er mwyn barnu ynghylch perfformiad a chyflawniad y gwaith, gan gynnwys prydlondeb y gwaith; ansawdd y gwaith; adborth ymgeiswyr/tenantiaid; cost y gwaith (gan gynnwys amrywiadau); record o ran iechyd a diogelwch; ac adborth cwsmeriaid;</li> <li>– gwerthuso ac adrodd ar berfformiad yn rheolaidd er mwyn canfod cyfleoedd i wella gwasanaethau; a</li> <li>– rhoi adborth ffurfiol i contractwyr am eu perfformiad, gan drafod materion allweddol fel bodlonrwydd cleientiaid, lefel unrhyw amrywio a pha mor dderbyniol yw hynny, gwaith sy'n gywir y tro cyntaf, asesiad ôl-arolygol a chwblhau ar amser ac yn unol â'r gyllideb.</li> </ul> </li> </ul>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Chwefror 2018	<a href="#">Addasiadau Tai</a>	<p>A7 Er mwyn sicrhau cymaint â phosib o effaith a gwerth am arian wrth ddarparu addasiadau, mae angen i sefydliadau tai a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gydweithio'n effeithiol i sicrhau bod modd bodloni anghenion pobl sydd yn aml yn fregus iawn, a gwella eu hansawdd byw. Fodd bynnag, yn ôl ein canfyddiadau mae'r diffyg ffocws strategol ar addasiadau mewn sefydliadau cyflenwi yn parhau, gyda'r sefydliadau hynny'n canolbwyntio ar ymatebion penodol o fewn y sefydliad, yn hytrach nag ystyried sut i gydweithio ag eraill i fodloni anghenion pobl anabl neu bobl hŷn orau (paragraffau 3.16 i 3.21). <b>Argymhellwn y dylai awdurdod lleol gydweithio ag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i ddatblygu a gwella'r trefniadau ar gyfer cydweithio. Y nod fydd cynyddu hyd yr eithaf y defnydd a'r budd yn gysylltiedig ag addasiadau o ran cefnogi annibyniaeth drwy gyfuno adnoddau, cydleoli staff a chreu timau cyflenwi integredig.</b></p> <p>A8 Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn cydnabod gwerth addasiadau o ran lleihau'r risg o godymau, atal derbyniadau i'r ysbty a chyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbty. Fodd bynnag, ni fydd trefniadau partneriaeth lleol bob amser yn adlewyrchu pwysigrwydd addasiadau, ac ar wahân i Therapyddion Galwedigaethol, nododd gweithwyr iechyd proffesiynol ei bod hi'n anodd ymdrin â'r gwahanol systemau'r awdurdod lleol a'r cymdeithasau tai ar gyfer gweinyddu, cymeradwyo a chwblhau addasiadau (paragraffau 3.22 i 3.24). <b>Er mwyn gwella'r defnydd a'r nifer sy'n manteisio ar addasiadau gyda chyrff iechyd, argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi gytuno ar y cyd ar gyd-safonau gwasanaeth ar gyfer cyflenwi addasiadau ym mhob ardal awdurdod lleol, a chyhoeddi'r cyd-safonau hynny. Dylid nodi'n glir yn y safonau gwasanaeth sut y bydd pob asiantaeth yn mynd ati i gyflenwi addasiadau, ac yn darparu gwasanaethau i sicrhau bod pobl yn gwybod yr hyn y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Dylai Safonau Gwasanaeth:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• fod mewn iaith hygyrch sy'n hawdd ei deall;</li> <li>• bod yn fanwl gywir ynghylch yr hyn y gall pobl/na all pobl ddisgwyl ei dderbyn;</li> <li>• cael eu llunio ar y cyd i gynnwys yr holl wasanaethau addasu o fewn ardal;</li> <li>• nodi cymhwysedd ar gyfer y gwahanol ffrydiau ariannu, y prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu; a</li> <li>• chynnig yr opsiynau posib a'r dewisiadau eraill yn lle addasu, gan gynnwys cysylltu â chofrestrau tai addasedig i wneud y defnydd gorau posib o gartrefi sydd eisoes wedi'u haddasu.</li> </ul>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Ebrill 2018	<a href="#"><u>Siaradwch fy iaith: Goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu mewn gwasanaethau cyhoeddus</u></a>	<p>Sicrhau bod pobl sy'n wynebu rhwystrau o ran iaith a chyfathrebu yn gallu cyrchu gwasanaethau cyhoeddus</p> <p>A1 Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau y gall pobl gyrchu'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Er mwyn bod yn ystyriol o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth arall, <b>argymhellwn y dylai gyrff cyhoeddus gynnal adolygiad rheolaidd er mwyn canfod pa mor hygyrch yw eu gwasanaethau i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel prif iaith, gan gynnwys pobl fyddar sydd yn defnyddio iaith arwyddion. Gellir defnyddio ein rhestr wirio yn rhan o'r asesiad hwn.</b></p> <p>Datblygu gwasanaethau dehongli a chyfieithu yng Nghymru</p> <p>A2 Drwy ein gwaith gyda chyrff cyhoeddus, darparwyr gwasanaeth dehongli a chyfieithu a defnyddwyr gwasanaeth, nodwyd bod sawl her o flaen gwasanaethau dehongli a chyfieithu. <b>Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff cyhoeddus, grwpiau cynrychioliadol a phartïon eraill â buddiant i sicrhau:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• bod digon o ddehonglwyr ar gael, yn enwedig ar gyfer ieithoedd y ceir galw mawr amdanynt, fel iaith Arwyddion Prydain ac Arabeg;</li> <li>• bod dehonglwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant arbenigol ar gael i weithio mewn gwasanaethau iechyd meddwl, a chyda phobl sydd wedi profi trawma neu drais; a</li> <li>• bod gweithdrefnau ar waith i ddiogelu a sicrhau ansawdd.</li> </ul>
Mai 2018	<a href="#"><u>Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi Ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?</u></a>	Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion na chynigion ar gyfer gwella.

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Mai 2018	<a href="#">Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol</a>	<p>A1 Mae gan bobl ag anabledd dysgu hawl i fyw'n annibynnol. Yn ystod y 50 mlynedd diwethaf bu newidiadau sylweddol o ran y ffordd y caiff llety a chymorth eu darparu. Mae gwasanaethau bellach yn cael eu darparu gan ddefnyddio model sy'n galluogi pobl i fyw yn y gymuned mewn tai cyffredin ledled Cymru (paragraffau 1.3 i 1.10). <b>Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol barhau i ganolbwyntio ar atal pobl rhag mynd yn ddibynnol ar leoliadau drutach mewn cartrefi gofal drwy ddarparu cymorth effeithiol yn y cartref ac amrywiaeth o lety camu ymlaen drwy wneud y canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwella'r modd y caiff gweithgarwch atal ei werthuso er mwyn i awdurdodau lleol ddeall beth sy'n gweithio'n dda a pham;</li> <li>• gan ddefnyddio mapio gwasanaethau atal o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n cwmpasu asiantaethau eraill a darparwyr gwasanaethau;</li> <li>• gwella prosesau cyfeirio at help ychwanegol er mwyn i ofalwyr a rhwydweithiau cymorth allu bod yn fwy cydnherth a hunanddibynnol. Dylai hyn gynnwys annog gofalwyr i lunio cynlluniau gofal hirdymor er mwyn cynnal a diogelu llesiant eu dibynnydd; a</li> <li>• rhannu gwaith dadansoddi risg a data cynllunio hirdymor ag awdurdodau lleol eraill, darparwyr gwasanaethau a phartneriaid er mwyn cytuno ar ddealltwriaeth gyffredin o'r ystod o opsiynau.</li> </ul> <p>A2 Dengys amcanestyniadau o'r boblogaeth y bydd nifer y bobl ag anabledd dysgu yn cynyddu yn y dyfodol ac y bydd nifer y bobl dros 65 oed a nifer y bobl ag anabledd dysgu cymedrol neu ddifrifol yn cynyddu'n sylweddol (paragraffau 1.3 i 1.10). <b>Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wella eu dull o gynllunio gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu drwy adeiladu ar asesiadau poblogaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a chytuno ar flaenoriaethau yn y dyfodol.</b></p>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Mai 2018	<a href="#">Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol</a>	<p>A3 Lluniodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i awdurdodau lleol, o'r enw 'developing a commissioning strategy for people with a learning disability', er mwyn helpu awdurdodau i lunio cynlluniau strategol ar gyfer comisiynu gwasanaethau anableddau dysgu. Ar y cyd â chodau ymarfer a ddatblygwyd yn sgil pasio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu opsiynau comisiynu integredig gyda gwasanaethau Byrddau Iechyd Lleol. Y nod yw darparu dull cydgysylltiedig a chosteffeithiol o gomisiynu gwasanaethau ond nododd ein hadolygiad wendidau yn y trefniadau presennol (paragraffau 2.4 i 2.12). <b>Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i integreiddio trefniadau comisiynu gyda phartneriaid a darparwyr ac ystyried gwaith y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol drwy wneud y canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• deall y ffactorau sy'n atal neu'n rhwystro integreiddio pellach;</li> <li>• gwella ansawdd cydgynlluniau strategol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu (gweler hefyd baragraffau 3.11 i 3.14);</li> <li>• sefydlu modelau buddsoddi a strwythurau ariannol cynaliadwy, trefniadau cydgynllunio'r gweithlu a dull cyllidebu amlfwydd; a</li> <li>• datblygu fframweithiau llywodraethu a rhannu data priodol gyda phartneriaid lleol allweddol sy'n cynnwys proses glir ar gyfer rheoli risg a methiant.</li> </ul> <p>A4 Mae gweithgarwch ymgysylltu awdurdodau lleol â phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn amrywio. Er bod gan lawer o wasanaethau awdurdodau gydberthnasau cadarnhaol â grwpiau eirioli, mae rhai yn llai llwyddiannus wrth gynnwys y grwpiau a'r gofalwyr hyn yn y broses o werthuso ansawdd gwasanaethau (paragraffau 2.18 i 2.20). <b>Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud mwy i gynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn y broses o gynllunio gofal a chytuno ar lwybrau at fwy o annibyniaeth drwy wneud y canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynnwys pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr yn gyson yn y broses o ysgrifennu, monitro a datblygu cynlluniau gofal;</li> <li>• cynnwys gofalwyr a grwpiau eirioli yn systematig yn y gwaith o werthuso ansawdd gwasanaethau;</li> <li>• cynnwys pobl ag anableddau dysgu mewn prosesau caffael; a</li> <li>• sicrhau y caiff gohebiaeth ei hysgrifennu mewn iaith briodol sy'n hawdd ei deall er mwyn gwella dealltwriaeth o ganllawiau a gwybodaeth a chynyddu eu heffaith.</li> </ul>

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Mai 2018	<a href="#">Comisiynu Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn Strategol</a>	<p>A5 Gallai awdurdodau lleol wneud mwy i gynnwys darparwyr gwasanaethau mewn gweithgarwch comisiynu a gwneud y broses dendro yn fwy effeithiol drwy sicrhau ei bod yn haws i'w defnyddio ac yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau. Fodd bynnag, nid yw awdurdodau lleol mor effeithiol ag y dylent fod wrth ymgysylltu â darparwyr (paragraffau 2.28 i 2.38). <b>Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol gydweithio â darparwyr, y trydydd sector a chyflenwyr er mwyn deall heriau a rhannu data ac arbenigedd drwy wneud y canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwella ansawdd, ystod a hygyrchedd gwybodaeth dendro; a</li> <li>• gweithio gyda darparwyr i lywio marchnadoedd lleol drwy feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r cyfleoedd, y risgiau a'r blaenoriaethau o ran darparu gwasanaethau anableddau dysgu yn y dyfodol.</li> </ul> <p>A6 Nid oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol drefniadau effeithiol ar gyfer monitro a gwerthuso'r ffordd y maent yn comisiynu gwasanaethau anableddau dysgu (paragraffau 3.3 i 3.15). <b>Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol ddatblygu set fwy priodol o ddangosyddion perfformiad a mesurau llwyddiant sy'n ei gwneud hi'n haws monitro a dangos effaith gweithgarwch gwasanaethau drwy wneud y canlynol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• llunio mesurau a dangosyddion perfformiad gwasanaethau a chontractau ar y cyd â darparwyr gwasanaethau, pobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr;</li> <li>• sicrhau bod gan gomisiynwyr ddigon o wybodaeth am gostau a digon o wybodaeth ansoddol am yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael o ran lleoliadau a gofal;</li> <li>• rhoi data i gomisiynwyr er mwyn dangos manteision ariannol hirdymor dewisiadau comisiynu, mae hyn yn cynnwys meddu ar y systemau a'r dechnoleg briodol;</li> <li>• integreiddio'r canlyniadau a'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau o gynlluniau gofal mewn mesurau perfformiad;</li> <li>• gwerthuso gwahanol fathau o ymyriadau a lleoliadau ac wedyn dysgu ohonynt; a</li> <li>• cynnwys gwasanaethau anableddau dysgu yn adolygiadau craffu awdurdodau lleol er mwyn herio perfformiad a nodi gwelliannau.</li> </ul>





Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

# Eitem 11

<b>Cyfarfod</b>	<b>Y Cyngor Llawn</b>
<b>Dyddiad</b>	<b>4 Hydref 2018</b>
<b>Pwnc</b>	<b>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2017/18</b>
<b>Awdur</b>	<b>Dr Einir Young, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau</b>
<b>Swyddog Perthnasol</b>	<b>Iwan Evans, Swyddog Monitro</b>


## **Cefndir**

- 1.** Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol, sydd wedi ei sefydlu i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd.
- 2.** I'r perwyl hyn penderfynodd y Pwyllgor gyhoeddi adroddiad blynyddol i egluro'r hyn y mae'n ei wneud ac i hyrwyddo ei waith. Penderfynodd y Pwyllgor y dylid hefyd gyflwyno'r adroddiad yn ffurfiol i gyfarfod o'r Cyngor Llawn.
- 3.** Mae'r Pwyllgor felly yn cyflwyno'r adroddiad hwn i sylw'r Cyngor. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei gylchredeg i gynghorau cymuned a thref Gwynedd.

## **Argymhelliad**

- 4.** Derbyn yr adroddiad

# ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD 2017 - 2018



# RHAGAIR GANY CADEIRYDD

Ers dwy flynedd bellach mae ôl-gryniadau'r ddaeargryn wleidyddol sydd ynghlwm â 'Brexit' yn parhau i'n hysgwyd yn ddyddiol. Wyddom ni ddim beth sydd o'n blaenau. A fydd yr ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd yn un 'caled' neu'n 'feddal'? A fydd cytundeb neu beidio? Caledu mae'r safbwyntiau ar ddwy ochr y ddadl. Yng nghanol yr holl ansicrwydd hwn rhaid i drigolion Gwynedd, y cynghorwyr a'r Awdurdod Lleol barhau i weithredu mor normal ag sy'n bosib.

I ychwanegu at yr heriau mae pobl mewn awdurdod, ddylai wybod yn well, yn cynhyrfu'r dyfroedd gyda datganiadau ymfflamychol sy'n bwydo rhagfarnau pobl ac yn rhoi cyfle i'r cyfryngau torfol roi mawn ar dân casineb a chulfarn.

Mae'r ffin rhwng gwir ac anwir yn teneuo mewn ffyrdd newydd a brawychus. Sut mae cymdeithas i fod i ymateb pan fo' cyfreithiwr yn dweud ar ei ben 'dydi gwir ddim yn wir - gwyn y gwêl y frân ei ffeithiau'?

Dyma'r storm sydd raid i Gyngor Gwynedd a'r Pwyllgor safonau ddod o hyd i'r ffordd drwyddi.

Fel y gwelwch, adroddiad byr sydd gennym i chi eleni eto. Ni chyfeiriwyd unrhyw gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y Pwyllgor. Cyfeiriwyd rhai achosion at yr Ombwdsmon ond ni fu'n rhaid cynnal gwrandawiadau.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at raglen waith llawn dros y flwyddyn sydd o'n blaenau. Rydym yn ffodus o gael pedwar aelod newydd: tri Aelod o Gyngor Gwynedd - Beth Lawton, Anne Lloyd-Jones a Dewi Roberts ac Aelod Pwyllgor Cymunedol y Cynghorydd Richard Parry Hughes. Yn y cyfamser rydym wedi ffarwelio â Jaqueline Hughes ac yn diolch iddi am ei chyfraniad ers 2015.

Nid yw'n bosib gorffen heb ddiolch unwaith eto i'r Swyddog Monitro a'i dîm am roi arweiniad i ni ac am eu gwaith cyson a pharhaus gyda'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Cymuned.

*Dr Einir Young  
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau*

# RHAGAIR GANY SWYDDOG MONITRO

Mae'r adroddiad eto yn cyfleu darlun fod trwch helaeth o gynghorwyr Sir, Tref a Chymuned yn arddel diwylliant o safon dda o ymddygiad yng Ngwynedd. Mae hyn yn wyneb cyd-destun anodd o safbwynt penderfyniadau ac adnoddau. Er bod rhestr o gwynion Ombwdsman rhaid cofio fod hyn i'w gloriannu yn erbyn nid yn unig Cyngor Gwynedd ond hefyd yr holl gynghorau Tref a Chymuned (64). Wrth gwrs mae gwaith cynnal ar y drefn ac mae rhaglen hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth yn gefn i hyn ynghyd ac argaeledd y tîm ar gyfer cynghori a chefnogi. Un agwedd i dynnu sylw ati yw hynt cwynion at yr Ombwdsman sydd yn adlewyrchu effaith gweithredu prawf budd cyhoeddus ar benderfyniadau i ymchwilio. Golyga hyn fod y rhiniog ar gyfer cychwyn ymchwiliad yn ymarferol uwch a bod angen dangos e.e. difrifoldeb nodweddiadol ymddygiad, canlyniadau neu ardrawiad penodol neu batrwm o amhriodoldeb i gyfiawnhau ymyrraeth bellach. Yma mae'r her cyfathrebu a chefnogi achwynwyr ynglŷn â'r gyfundrefn a sicrhau fod disgwyliadau priodol ynglŷn a safonau ymddygiad eu cynrychiolwyr etholedig yn cael eu cynnal boed ymchwiliad neu beidio.

*Iwan Evans  
Swyddog Monitro  
Cyngor Gwynedd*

## CYFLWYNIAD

Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

## AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

### Margaret E Jones (aelod ers 2012)



Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Chwilog. Bu'n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel prifathrawes. Mae'n ddiakon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu'n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Llywydd yr Undeb. Bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010. Mae hi'n aelod gweithgar o Bwyllgor Eisteddfod Chwilog ac yng ngofal y Seremoni Cadeirio.

### Dr Einir Young (aelod ers 2012)



Wedi ei geni yn y Rhondda a'i magu yn Llanelli a Chwmtwrch mae Einir wedi ymgartrefu yng Ngwynedd ers bron i ddeg mlynedd ar hugain. Bu'n byw am gyfnod yng Nghaliffornia ac mae wedi teithio led led y byd yn enwedig i Affrica yn gweithio gyda chymunedau ymylol. Cymru yw canolbwynt ei gwaith erbyn hyn ond yr un yw'r heriau sy'n wynebu cymunedau - yr angen am weledigaeth hir dymor, sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er gwella neu'n atal pethau rhag mynd yn waeth, integreiddio ar draws cymunedau, cyd weithio ac efallai'n bwysicaf oll cynnwys pawb. Dyma'r union egwyddorion sydd i'w gweld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac fel Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor mae Einir a'i thîm yn y Labordy Cynaliadwyedd yn frwd dros hyrwyddo'r ffyrdd o weithio sy'n cael eu hannog gan y ddeddf ar draws y sefydliad a thu hwnt. Mae cynnal safonau yn elfen mor bwysig i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi'n falch o'r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd ac i'w gadeirio.

Yn ei hamser hamdden mae Einir yn mwynhau cerdded ymysg pethau eraill ac ar hyn o bryd mae hi ei chwaer a'r ci yn cerdded Llwybr Arfordir Cymru ac wedi cyrraedd Aber Llydan yn Sir Benfro. Mae nhw hefyd wrthi'n cerdded Llwybr Llechi Eryri.






### Jacqueline Hughes (aelod ers 2015)

Mae Jackie yn byw yn Nantlle gyda'i gwr lan, ei thair merch, ei hwyres a chi bywiog iawn. Yn wreiddiol o Gilgwri, cymhwysodd fel radiograffydd diagnostig yn 1987 ar ôl astudio yn Ysgol Radiograffeg Ysbyty Guys. Ar ôl ymgartrefu yng Ngogledd Cymru gyda'i theulu ifanc, ymunodd â staff yn Ysbyty Gwynedd. Mae gyrfa Jackie ym Mangor wedi datblygu fel radiograffydd ac fel cynrychiolydd cysylltiadau diwydiannol. Ar hyn o bryd hi yw Cadeirydd Ochr y Staff ar gyfer y Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ogystal â bod yn gynrychiolydd lleol dros y rhan fwyaf o'r radiograffwyr yng Ngogledd Cymru. Bu'n Llywydd Cymdeithas a Choleg y Radiograffyddion ac roedd yn allweddol wrth ddatblygu'r ymateb i Adroddiad Francis, ac yn dilyn hynny côd ymddygiad newydd ar gyfer radiograffyddion. Mae hi'n credu bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gweithio mewn bywyd cyhoeddus gynnal lefel uchel o safonau personol er mwyn bod yn gredadwy i'r cyhoedd.



### David Wareing (aelod ers 2015)

Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymdeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae'n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.



### Aled Jones (aelod ers 2016)

Brodor o Lanbedr Pont Steffan, Ceredigion yn wreiddiol yw Aled. Astudiodd radd mewn Cymraeg a Daeryddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Ar ôl graddio ym 1999, symudodd i Gaernarfon i weithio gyda chwmni cyfieithu Cymen a daeth yn gydberchennog ar y cwmni yn 2007. Bellach mae'n cyflogi tîm o 20 aelod staff a dros 15 o gyfieithwyr llawrydd eraill. Mae'n byw ym Mangor gyda Tegwen a'r plant, Cai a Beca. Mae'n mwynhau pob math o chwaraeon a chaiff ei weld yn aml yn cefnogi Clwb Rygbi Bethesda a Chlwb Pêl-droed Dinas Bangor. Yn rhinwedd ei swydd fel cyfieithydd ar y pryd, mae ganddo brofiad helaeth o fynychu cyfarfodydd ar bob lefel o lywodraethiant felly mae mewn sefyllfa dda i arsylwi ar ymddygiad a safonau gan adnabod yr arferion gorau.

## Aelod Pwyllgor Cymunedol



### Cynghorydd Richard Parry Hughes (aelod ers 2017)

Magwyd Richard ar fferm yn Llanaelhaearn ac aeth i Ysgol Ramadeg Pwllheli, Coleg Amaethyddol Glynllifon, a Choleg Seale Hayne (Prifysgol Plymouth). Mae ganddo ôl radd mewn Rheolaeth Fferm. Bu yn gweithio i bartneriaeth filfeddygon yn Chwilog am dair blynedd ac yn ddarlithydd rhan amser yng Ngholeg Glynllifon, cyn prynu fferm Penfras Uchaf Llwyndyrys lle bu ei deulu yn denantiaid arni am dros dri chan mlynedd. Mae'n briod ac Eleri ac mae ganddynt dri mab. Yn gyn arweinydd Cyngor Gwynedd, mae yn dal i ffermio. Mae ganddo brofiad helaeth o bwyllgorau gan ddal swyddi fel cadeirydd

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru cyn ymgymryd â chael ei ethol fel aelod o gyrff cyhoeddus. Bu yn aelod o Gyngor Sir Gwynedd o 1992 hyd 1996 ac yn aelod o Gyngor Gwynedd o 1996 i 2008. Bu'n arwain Cyngor Gwynedd o 2003 i 2008 ac hefyd yn lefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar yr Amgylchedd a Chynllunio yn ystod y cyfnod yma. Mae'n aelod brwd o Gwmni Drama Llwyndyrys a chefnogwr amryw o gymdeithasau eraill lleol megis, Antur Aelhaearn a Chyfeillion Eglwys Carnguwch. Mae'n gweithio'n wirfoddol fel gweithiwr achos i'r Farm Community Network. Mae'n aelod o Gyngor Cymuned Llannor ers 1992.

## Aelodau Cyngor Gwynedd



### Cynghorydd Dewi Roberts (aelod ers 2017)

Mae Dewi yn byw yn Llanengan ger Abersoch gyda'i wraig Bethan, ac mae ganddynt 5 o blant sydd i gyd yn oedolion. Roedd yn beiriannydd ac yn ddarlithydd peirianeg yng Ngholeg Technegol Bangor cyn ymuno â Heddlu Gogledd Cymru. Yno bu'n Dditectif yn gweithio'n lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, cyn ymddeol ar ôl 29 mlynedd o wasanaeth.

Cafodd ei ethol ym mis Mai 2017 fel Cynghorydd Gwynedd yn cynrychioli Ward Abersoch. Ers ei ethol mae wedi Cadeirio Pwyllgor Gwasanaeth Democrataidd ac mae'n Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal, Cadeirydd Pwyllgor Ardal Dwyfor, yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac yn Is-gadeirydd Cyngor Iechyd Cymuned Gwynedd.

Yn ogystal â bod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau, mae hefyd yn aelod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol, yn Warden Eglwys Llanengan ac yn eistedd ar Gyngor Plwyf yr Eglwys. Mae hefyd yn gwasanaethu fel Llywodraethwr ar Ysgol Abersoch ac Ysgol Botwnnog.



### Cynghorydd Beth Lawton (aelod ers 2017)

Mae Beth yn byw ym Mryncrug ac yn berchen ffatri leol. Mae'n Gynghorydd Sir dros ardal Bryncrug/Llanfihangel sydd yn cynnwys pentre' Bryncrug ac Abergynolwyn. Mae hefyd yn Gynghorydd Cymuned ac yn gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn. Mae'n weithgar ar sawl pwyllgor yn y gymuned yn cynnwys Carnifal Abergynolwyn, Ffair Wledig Bryncrug, Pwyllgor Apêl Ysbyty Tywyn a llawer eraill. Mae'n gadeirydd Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi Cyngor Gwynedd ac yn gyfarwyddwr ar y cwmni hamdden newydd.



### Cynghorydd Anne Lloyd-Jones (aelod ers 2017)

Mae Anne yn byw ac yn rhedeg busnes twristiaeth fferm yn Nhywyn, ac mae wedi cynrychioli Tywyn ar Gyngor Gwynedd ers 1995 a chyn hynny roedd yn aelod o Gyngor Dosbarth Meirionnydd am wyth mlynedd. Etholwyd hi'n gyntaf fel aelod o Gyngor Tref Tywyn yn 1985 a hi oedd Faeres gyntaf yn 1991, ac eto yn 2004, ac roedd yn Gadeirydd Cyngor Gwynedd yn 2009. Mae hi'n gyn-gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd ac yn un o aelodau gwreiddiol Bwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd. Roedd hi'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Meirionnydd, ac yn Gadeirydd presennol Cronfa Apêl Ysbyty

Tywyn a'r Cylch.

Mae hi'n aelod ac yn gyn-gadeirydd Ysgol Penybryn ac yn aelod ar gorff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn.

Roedd Anne yn Gadeirydd Twristiaeth Canolbarth Cymru rhwng 2001-2016, yn aelod sefydliadol ac yn gyn-lywydd a Thrysorydd Clwb Inner Wheel Tywyn a bu'n Drysorydd cangen leol yr NSPCC ers 1989.

Mae Anne yn briod â John ac mae ganddyn nhw dair merch a dwy wyres sy'n efeilliaid.

## Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Democraataidd yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

### Manylion Cyswllt

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro.  
E-bost: [IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru](mailto:IwanGDEvans@gwynedd.llyw.cymru) Ffôn 01286 679015
- Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol).  
E-bost: [sionhuws@gwynedd.llyw.cymru](mailto:sionhuws@gwynedd.llyw.cymru) Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2017 - 2018

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

## **Achosion fu gerbron y Pwyllgor**

Eleni, ni chyfeiriwyd unrhyw gŵyn o dorri'r Cod Ymddygiad at y Pwyllgor am benderfyniad.

## **Cwynion eraill**

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2**.

## **Goddefebau**

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

Ystyriodd y Pwyllgor dri cais am oddefiad yn ystod y cyfnod yma oddi wrth aelodau Cyngor Gwynedd a chaniatawyd y tri.

## **Hyfforddiant ar y Cod ymddygiad**

Ystyriodd y Pwyllgor a fyddai modd cael trefn amgen o ddarparu hyfforddiant i gynghorau tref a chymuned. Penderfynwyd cynnal peilot o drefna olygai cynnig darparu hyfforddwr i ddod i gynnal sesiwn ar y Cod Ymddygiad yn ardaloedd y cynghorau eu hunain, yn hytrach na chanoli sesiynau yn y prif ganolfannau'n unig. Bwriedir adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y peilot ymhen blwyddyn.

Penderfynodd y Pwyllgor hefyd y dylid paratoi taflen gryno ar y Cod Ymddygiad ar gyfer y pecyn anwytho a ddarperir ar gyfer aelodau newydd o gynghorau tref / cymuned.

## **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru**

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol. Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor. Erbyn hyn mae Pwyllgorau Safonau Ceredigion a Phowys wedi ymuno â'r Fforwm.

## Atodiad I

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2017-18

### 10 Gorffennaf 2017

- Cynnal Hunanasesiad a llunio Rhaglen Waith ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Ystyried Trefn Datrys Lleol Un Llais Cymru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru

### 2 Hydref 2017

- Ystyried Protocol Cyngor Gwynedd ar Gysylltiadau Aelod / Swyddog
- Ystyried Protocol Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd
- Penderfynu ar geisiadau am oddefebau
- Ystyried Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon

### 12 Mawrth 2018

- Ystyried trefniadau hyfforddiant i gynghorau tref a chymuned
- Cymryd trosolwg o swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau

### 23 Ionawr 2017

- Cymeradwyo trefn i benodi aelodau i'r Pwyllgor yn dilyn yr Etholiadau
- Ystyried cais i ymestyn aelodaeth Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru
- Derbyniad diweddariad ar y Gofrestr Buddiannau Aelodau
- Penderfynu ar ddau gais am oddefeb

## Atodiad 2

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorwyr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:

### Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad

### Penderfyniad yr Ombwdsmon

Cwyn bod cynghorydd cymuned wedi dwyn anfri ar ei swydd neu'r awdurdod ac wedi defnyddio ei sefyllfa'n amhriodol, wrth weithredu ar bwyllgor lleol.

Dim ymchwiliad - roedd yr aelod yn ymwneud â'r pwyllgor lleol mewn capasiti personol a phreifat ac nid fel cynghorydd etholedig.

Cwyn yn erbyn cynghorydd ei fod wedi rhoi sylwadau am yr achwynydd ar ei dudalen Facebook oedd yn enllibus ac yn dwyn anfri ar yr awdurdod a'i swydd.

Dim ymchwiliad. Nid oedd yn eglur os oedd y sylwadau yn hollol gyhoeddus ac os oedd wedi eu gwneud fel cynghorydd. Bwriadai'r Ombwdsmon serch hynny ysgrifennu at yr aelod i'w atgoffa o'r angen i gadw at baragraff 6(1)(a) (dwyn anfri) ar bob achlysur ac mewn unrhyw gapasiti. Roedd honiad o enllib yn fater cyfreithiol ar gyfer y llysoedd.

Cwynion yn erbyn pedwar cynghorydd cymuned mewn cysylltiad â datgan diddordeb mewn eitem gerbron.

Dim ymchwiliad mewn tri achos. Ymchwiliodd i ddwy gŵyn yn erbyn yr un aelod, ac er canfod bod y cod wedi ei dorri nid oedd o'r farn bod cyfiawnhad dros gymryd camau pellach.

Cwyn gan gynghorydd tref bod cyd-gynghorydd wedi methu datgelu cysylltiad personol agos â pherson oedd mewn anghydfod â'r cyngor; bod y cysylltiad hwnnw'n creu buddiant oedd yn rhagfarnu; ei bod wedi cuddio'r ffaith er mwyn ennill mantais ariannol. Honnodd hefyd bod yr aelod wedi cyfarwyddo'r Clerc i beidio cofnodi a/neu gylchredeg cofnodion ynglŷn â'r mater.

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i'r gŵyn a daeth i'r casgliadau canlynol:

- Nid oedd tystiolaeth bod cysylltiad personol agos yn bodoli
- Nid oedd tystiolaeth bod yr aelod wedi ceisio cuddio buddiant neu geisio mantais personol
- Tra bod problemau wedi bod gyda chofnodion y cyngor yn y gorffennol, nid oedd tystiolaeth bod yr aelod wedi cyfarwyddo'r Clerc i beidio paratoi cofnodion a'u cylchredeg

## Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad

## Penderfyniad yr Ombwdsmon

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd tref, yn rhinwedd ei safle fel cadeirydd sefydliad lleol, wedi gwneud sylwadau bygythiol wrtho mewn cysylltiad â darpariaethau i ymwelwyr anabl i'r sefydliad.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gŵyn am y rhesymau canlynol:

- Ymddangosai bod y cynghorydd yn gweithredu fel unigolyn preifat ar y pryd ac nid fel cynghorydd. Nid oedd amgylchiadau'r achos yn rhai fyddai'n golygu bod y Cod Ymddygiad yn berthnasol i ymddygiad yr aelod fel unigolyn.

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd tref wedi gwneud sylwadau rhywiaethol a gwreig-gasaol ar ei dudalen Facebook.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Roedd hi'n ymddangos bod y cynghorydd yn defnyddio cyfrif personol Facebook ar y pryd. Ni welai'r Ombwdsmon unrhyw gyfeiriadau at ei statws fel cynghorydd neu awgrym ei fod yn gweithredu fel un ar y pryd.
- Roedd Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gwarchod yr hawl pobl i ddweud rhai pethau er y gallent fod yn annerbyniol i rai.
- Nid oedd unrhyw unigolyn na chwmni yn cael ei enwi yn y sylwadau
- Nid oedd yr Ombwdsmon yn cymeradwyo'r sylwadau a gellid dweud eu bod yn dwyn anfrif arno fel unigolyn

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod cynghorydd wedi bod yn rhan o benderfyniad i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol.

Penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio am y rhesymau canlynol:

- Mater i gynghorydd yw penderfynu os yw am gyfarfod neu ohebu gydag aelodau o'r cyhoedd.

Cwyn bod cyd aelod wedi camddefnyddio ei statws fel cynghorydd i wenu honiadau personol am yr achwynydd.

Yn dilyn ymchwiliad daeth yr Ombwdsmon i'r casglaid nad oedd ymddygiad yr aelod yn ddigon difrifol i dorri'r Cod. Serch hynny roedd am ysgrifennu at yr aelod i'w atgoffa o'i gyfrifoldeb i ystyried sut y mae ei sylwadau yn cael eu canfod gan eraill.

# Dadansoddiad o'r Cwynion yn erbyn Aelodau

## **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn**

Aelod o gyngor cymuned	9
Aelod o Gyngor Gwynedd	3
Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned	3

## **Natur yr achwynydd**

Cynghorydd	9
Aelod o'r cyhoedd	6
Swyddog	0

## **Natur yr honiad**

Ymddygiad cyffredinol	9
Datgan Buddiant	6

## **Canlyniad**

Dim ymchwiliad	11
Ymchwiliad	4
Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau	0
Cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru	0



# Eitem 12

<b>CYFARFOD</b>	CYNGOR
<b>DYDDIAD</b>	4 Hydref 2018
<b>PWNC</b>	Protocol ar Gysylltiadau Aelodau Swyddogion
<b>AELOD CABINET</b>	Cynghorydd Nia Jeffreys
<b>AWDUR</b>	Iwan Evans – Swyddog Monitro
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	Mabwysiadu Diwygiadau i'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau Swyddogion

## Cefndir

Fel rhan o broses adolygu Protocolau Priodoldeb mynegodd y Pwyllgor Safonau ddymuniad i adolygu'r Protocol yma gan adnabod man newidiadau o safbwynt ystyr a dehongliad oedd angen sylw.

Yn dilyn y penderfyniad i gynnal adolygiad cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaid Penaethiaid Adrannau ac Uwch Reolwyr y Cyngor. Mae hyn wedi arwain at newidiadau arfaethedig sydd wedi eu hamlygu yn y ddogfen atodedig.

Mae'r prif newidiadau ynglŷn â chryfhau'r ddarpariaeth ar ynglŷn â bwlio ac aflonyddu, gwell eglurdeb ynglŷn a chyfeillgarwch rhwng swyddogion ac aelodau ac ymateb i ohebiaeth. Er nad yw'r newidiadau yn eu hunain yn arwyddocaol o ran cyfeiriad y ddogfen ystyrir eu bod yn cynrychioli arweiniad gwell ac eglurach.

Dylid nodi fod y ddarpariaeth ynglŷn â gohebiaeth yn adlewyrchu cynnydd gwaith arall sydd wedi digwydd ac arweiniad sydd eisoes wedi ei ddarparu i staff ynglŷn ag ymdrin â gohebiaeth aelodau.

Penderfynodd y Pwyllgor Safonau argymhell y newidiadau sydd wedi eu dangos yn y ddogfen atodedig i'w mabwysiadu gan y Cyngor.

## Argymhelliad

### Fod y Cyngor yn mabwysiadu'r diwygiadau i'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau Swyddogion

Atodiad 1

Protocol Cysylltiadau Aelodau Swyddogion Diwigiedig

Atodiad 2

Cofnod Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaid 12 Ebrill 2018.

Atodiad 3

Cofnod Drafft Pwyllgor Safonau 9 Gorffennaf 2018

## Atodiad 1

### ADRAN 21

#### 21. PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU AELODAU / SWYDDOGION

##### 21.1 Cyflwyniad

Diben y Protocol hwn yw rhoi arweiniad i Aelodau a Chyflogeion y Cyngor o ran eu cysylltiadau â'i gilydd.

21.2 Mae parch rhwng Aelodau a Chyflogeion yn hanfodol i lywodraeth leol dda. Fodd bynnag, gall cyfeillgarwch personol agos rhwng Aelodau a Chyflogeion unigol niweidio'r berthynas hon ac achosi embaras i Aelodau a Chyflogeion eraill.

21.3 Mae'n rhaid i'r berthynas weithredu heb beryglu cyfrifoldebau pennaf Cyflogeion i'r Cyngor yn ei gyfanrwydd, a chan roi ystyriaeth briodol i'r cyfryw gyngor technegol, ariannol, proffesiynol a chyfreithiol y gall Cyflogeion ei roi'n gyfreithlon i Aelodau. Mae'r Protocol yn ceisio gosod fframwaith sy'n hwyluso'r cysylltiadau gwaith rhwng Aelodau a Chyflogeion.

21.4 Mae Aelodau a Chyflogeion yn ddarostyngedig i'w Codau Ymddygiad eu hunain sydd ar gael yn y Cyfansoddiad hwn. Mae'r Protocol hwn yn rhoi arweiniad ar gysylltiadau gwaith rhwng Aelodau a Chyflogeion. Mae'n hanfodol bod y ddau yn gyfarwydd â'r rhwymedigaethau manwl yn eu Codau Ymddygiad unigol, a fydd yn drech os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Codau a'r Protocol hwn.

##### 21.5 Rolau Aelodau

Mae Aelodau'n ymgymryd â llawer o wahanol rolau. Yn gyffredinol:

21.5.1 Mae Aelodau'n mynegi gwerthoedd gwleidyddol ac yn cefnogi polisïau'r grŵp neu'r blaid y maent yn perthyn iddo/iddi (os o gwbl).

21.5.2 Mae Aelodau'n cynrychioli eu hadran etholiadol ac yn eiriolwyr ar ran y dinasyddion sy'n byw yn yr ardal.

21.5.3 Mae Aelodau'n ymwneud â phartneriaethau gweithredol gyda sefydliadau eraill fel arweinwyr cymunedol.

21.5.4 Mae Aelodau'n cyfrannu at y penderfyniadau a wneir yn y Cyngor Llawn ac yn ei gyrff amrywiol y maent yn gwasanaethu arnynt, yn ogystal â chydbwyllgorau, cyrff allanol a sefydliadau partneriaeth.

21.5.5 Mae Aelodau'n **gweithio gyda Swyddogion** helpu i ddatblygu ac adolygu polisi a strategaeth.

21.5.6 Mae Aelodau'n monitro ac adolygu gweithrediad polisïau ac ansawdd gwasanaethau.

21.5.7 Mae Aelodau'n ymwneud â gwaith lled-farnwrol trwy eu haelodaeth o bwyllgorau rheoleiddio.

21.6 Mae ymddygiad Aelodau'n cael ei reoli gan y Cod Ymddygiad i Aelodau sy'n datgan:

“Rhaid i chi

- (a) *gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;*
- (b) *ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;*
- (c) *beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson; a*
- (ch) *beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran."*

## **21.7 Rolau Cyflogeion**

Yn fyr, mae prif rolau Cyflogeion fel a ganlyn:

- 21.7.1 Rheoli a darparu'r gwasanaethau y mae'r Cyngor wedi eu penodi'n gyfrifol amdanynt a bod yn atebol am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny.
- 21.7.2 Cyngori'r Cyngor a'i gyrff amrywiol ac Aelodau unigol o ran y gwasanaethau a ddarperir.
- 21.7.3 Cychwyn cynigion polisi.
- 21.7.4 Gweithredu polisi cytunedig.
- 21.7.5 Sicrhau bod y Cyngor bob amser yn gweithredu mewn modd cyfreithlon.

## **21.8 Mae ymddygiad Cyflogeion yn cael ei reoli gan y Cod Ymddygiad i Gyflogeion sy'n datgan:**

*"Cysylltiadau ag aelodau, y cyhoedd a chyflogeion eraill.*

- 4. *Mae cyd-barch rhwng cyflogeion cymwys ac aelodau yn hanfodol ar gyfer llywodraeth leol dda, a dylai perthnasoedd gwaith gael eu cadw ar sail broffesiynol.*
- 5. *Dylai cyflogeion cymwys yr awdurdodau perthnasol ymdrin â'r cyhoedd, aelodau a chyflogeion eraill gyda chydymdeimlad, yn effeithlon ac yn ddiuedd."*

## **21.9 Parch a Chwrteisi**

21.9.1 Er mwyn i fusnes y Cyngor gael ei gynnal yn effeithiol, mae'n rhaid cael parch, ymddiriedaeth a chwarteisi yn yr holl gyfarfodydd a chysylltiadau, ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd, rhwng Aelodau a Chyflogeion. Mae hyn yn rhan bwysig iawn o enw da'r Cyngor a chanfyddiad y cyhoedd ohono. Mae'n bwysig iawn bod Aelodau a Chyflogeion yn cofio eu rhwymedigaethau unigol i wella enw da'r Cyngor a'u bod yn gwneud ymdrech i osgoi beirniadu Aelodau eraill, neu Gyflogeion eraill, mewn manau cyhoeddus.

### 21.9.2 Pwysau Gormodol

- (a) Wrth ymwneud â'i gilydd, mae'n bwysig nad yw Aelodau a Chyflogeion yn ceisio manteisio'n annheg ar eu safleoedd.
- (b) Wrth ymwneud â Chyflogeion (yn enwedig Cyflogeion iau), mae angen i Aelodau fod yn ymwybodol ei bod yn rhwydd iddynt deimlo parchedig

ofn ac fel petaent dan anfantais. Gall teimladau o'r fath fod yn ddwysach pan fydd Aelodau'n dal swydd swyddogol a/neu wleidyddol uwch.

- (c) Ni ddylai aelod roi swyddogion dan bwysau amhriodol i weithredu yn unol â dymuniadau'r aelod a bydd swyddog bob amser yn rhydd i gynnig barn broffesiynol sy'n groes i farn yr aelod.
- (ch) Ni ddylai Aelod roi pwysau gormodol ar Gyflogai i wneud unrhyw beth nad oes ganddo ef/ganddi hi y pŵer i'w wneud nac i ymgymryd â gwaith y tu allan i'w (d)yletswyddau arferol neu ei (h)oriau arferol. Mae angen bod yn arbennig o ofalus o ran defnyddio eiddo a gwasanaethau'r Cyngor.
- (d) Yn yr un modd, mae'n rhaid i Gyflogai beidio â cheisio dylanwadu'n ormodol ar Aelod unigol i wneud penderfyniad o'i blaid/phlaid, na chodi materion personol yn ymwneud â'i swydd, na gwneud honiadau yn erbyn Cyflogaion eraill. *(Mae gan y Cyngor weithdrefnau ffurfiol ar gyfer ymgynghori, cwyno a disgyblu, ac mae gan Gyflogaion yr hawl i adrodd am gamweddau posibl o dan God Adrodd Cyfrinachol y Cyngor sef Polisi Canu'r Gloch.)*

### 21.9.3 Bwlio neu harasio

**“Ystyr aflonyddu (“harasio”) yw ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd sy'n cynhyrfu neu'n gwylltio pobl. Mae bwlio'n gallu golygu ymddygiad tramgwyddus, bygythiol, maleisus, sarhaus neu fychanol. Gall ymddygiad o'r fath ddigwydd unwaith neu gall fod yn rhan o batrwm ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at rywun gwannach neu rywun y mae gennych ddylanwad gwirioneddol neu ymddangosiadol drosto. Y bwriad wrth fwlio yw tansellio unigolyn neu grŵp o unigolion; mae'n niweidio eu hyder a'u galluoegrwydd a gall amharu ar eu hiechyd. Gellir cyferbynnu hyn â'r heriau dilys y gall aelod eu codi wrth gwestiynu polisi neu wrth graffu ar berfformiad”. (Ombwdsman Gwasnaethau Cyhoeddus)**

Nid yw'n dderbyniol i aelod fwlio neu harasio swyddog. Ystyrir unrhyw weithred yn erbyn swyddog yn fwlio neu harasio os mai'r bwriad oedd dylanwadu'n amhriodol neu'n annheg ar ei farn neu ei weithgaredd.

Nid oes lle i sylwadau dilornus personol mewn trafodaeth rhwng aelod a swyddog ac ni ystyrir ei bod yn briodol i'r naill leisio cwyn am y llall yn gyhoeddus mewn pwyllgor neu yn y wasg, heb yn gyntaf ddefnyddio trefniadau mewnol y Cyngor i geisio datrys y gwyn honno.

**(Mae modd cyfeirio at bolisiau mewnol y Cyngor ynglŷn â bwlio ac aflonyddu am fwy o wybodaeth)**

### 21.9.4 Cyfeillgarwch

**Mae awyrgylch weithio dda rhwng Aelodau a Swyddogion yn gyfrwng i gynnal perthynas weithio effeithiol. Fodd bynnag, dylent fod yn ofalus ynglŷn â datblygu cyfeillgarwch personol agos. Ni ddylid tansellio cydbarchu na'r disgwyliad ac ymddangosiad fod swyddogion yn darparu cyngor proffesiynol a diduedd i aelodau.**

- (a) — Gall cyfeillgarwch personol agos rhwng Aelodau a Chyflogeion niweidio'r egwyddor o barch tuag at ei gilydd. Fe allai hefyd, yn fwriadol neu'n ddamweiniol, arwain at drosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth nad yw'n briodol ei throsglwyddo rhyngddynt, fel manylion personol.
- (b) — Gallai cyfeillgarwch o'r fath hefyd achosi embaras i Aelodau eraill a/neu Gyflogeion eraill a hyd yn oed arwain at amheuan ynglŷn â ffafriaeth.
- (c) — Am y rhesymau hyn, mae'n rhaid osgoi cyfeillgarwch personol agos.

## **21.10 Rhoi Cyngor a Gwybodaeth ac Ymdrin a Gohebiaeth**

- 21.10.1 Caiff Cyflogeion eu cyflogi gan y Cyngor yn ei gyfanrwydd. Maent yn gwasanaethu'r Cyngor ac yn atebol i'r Prif Weithredwr a'u Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth priodol, ac nid i Aelodau unigol o'r Cyngor waeth beth fo'u swydd.
- 21.10.2 Mae Aelodau'n rhydd i gysylltu â Chyflogeion y Cyngor er mwyn cael y cyfryw wybodaeth a chyngor ag y gallai fod ei (h)angen arnynt yn rhesymol i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl fel Aelod o'r Cyngor. Gall hyn amrywio o gais am wybodaeth gyffredinol ynglŷn â rhyw agwedd ar weithgareddau'r Cyngor i gais am wybodaeth benodol ar ran etholwr.
- 21.10.3 Dylai Cyflogeion bob amser geisio ymateb i geisiadau am **wybodaeth a gohebiaeth cyn** brydlon a **phosib**, sut bynnag, dylent hysbysu'r Aelod os oes oedi sylweddol yn debygol wrth ymdrin ag ymholiad. Dylid ymdrechu o leiaf i ddilyn yr amserlen ar gyfer ymateb i ohebiaeth h.y. naill ai ymateb llawn **o fewn pum diwrnod gwaith neu**, os nad yw hyn yn bosibl, cydnabyddiaeth sy'n esbonio'n llawn beth sy'n digwydd o fewn pum diwrnod gwaith o dderbyn yr ymholiad **a chadw cysylltiad ynglŷn a chynnydd.**
- 21.10.4 Ymdrinnir â hawliau cyfreithiol Aelodau i archwilio dogfennau'r Cyngor yn rhannol gan statud ac yn rhannol gan gyfraith gwlad.
- 21.10.5 Mae'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn yn esbonio'r sefyllfa o ran mynediad at bapurau sy'n ymwneud â chyrrff y Cyngor.
- 21.10.6 Mae arfer yr hawl cyfraith gwlad yn dibynnu ar allu Aelod i ddangos ei fod/bod "angen gwybod". I'r perwyl hwn, nid oes gan Aelod hawl i "gennad i grwydro" i archwilio unrhyw rai o ddogfennau'r Cyngor. Nid yw chwilfrydedd yn unig yn ddigonol.
- 21.10.7 Dylai'r wybodaeth a geisir gan Aelod gael ei darparu gan y Gwasanaeth perthnasol dim ond cyn belled â bod hynny o fewn terfynau adnoddau'r Gwasanaeth. O'u rhan hwy, dylai Aelodau geisio gweithredu'n rhesymol o ran nifer a chynnwys y ceisiadau a wnânt.
- 21.10.8 Mae'n bwysig i Wasanaethau a'u staff roi gwybodaeth i Aelodau am y materion pwysig sy'n ymwneud â'r Cyngor ac, yn fwy penodol, am faterion a digwyddiadau sy'n effeithio ar yr ardaloedd y maent eu cynrychioli. Dylid rhoi gwybodaeth i Aelodau lleol am gynigion sy'n effeithio ar eu hadrannau etholiadol a dylid eu gwahodd hefyd i fynychu digwyddiadau a drefnir gan y Cyngor yn eu hadrannau etholiadol. (Mae mwy o fanylion yn y Siarter Ymgynghori ag Aelodau Lleol, sydd wedi'i hatodi i'r Protocol hwn).

- 21.10.9 Pe byddai Aelod yn gofyn am wybodaeth benodol yn ymwneud â gwaith Gwasanaeth arbennig, a'i bod yn ymddangos yn bosibl neu'n debygol y gallai mater gael ei godi neu gwestiwn gael ei ofyn mewn cyfarfod dilynol ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, yna dylid rhoi gwybod i'r Aelod priodol o'r Cabinet neu Gadeirydd y Pwyllgor dan sylw am y wybodaeth a ddarparwyd.
- 21.10.10 O bryd i'w gilydd, mae'n rhaid i Swyddogion gynghori Aelodau nad oes modd dilyn ffordd benodol o weithredu. Weithiau, mae Aelodau'n tybio mai'r rheswm am hyn yw bod Swyddogion yn ceisio llesteirio dymuniadau gwleidyddion yn fwriadol. Mewn gwirionedd, yn anaml iawn y bydd hyn yn wir. Cyflogir Swyddogion i roi cyngor proffesiynol diduedd, hyd yn oed os nad yw'r cyngor hwnnw'n plesio Aelodau. Maent yn gwneud hyn llawn cymaint er mwyn amddiffyn Aelodau ag am unrhyw reswm arall. Fodd bynnag, os bydd angen rhoi cyngor negyddol, bydd Swyddog effeithiol hefyd yn rhoi awgrymiadau ynglŷn â sut y gallai Aelodau gyflawni rhai o'u hamcanion neu eu holl amcanion mewn ffyrdd eraill. Mae Swyddogion o'r fath yn amhrisiadwy i unrhyw Gyngor.
- 21.10.11 Mae'n bosibl y bydd gan Aelodau hawl o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 i dderbyn gwybodaeth sydd y tu allan i'w hawliau cyfraith gwlad ar sail "angen gwybod". Anogir Cyflogeion i roi dogfennau i Aelodau heb fod angen cyflwyno cais ffurfiol o dan y Ddeddf os yw'n amlwg o ymholiad yr Aelod y byddai gan unrhyw unigolyn yr hawl i dderbyn dogfennau o'r fath. Bydd **Rheolwr Gwybodaeth** y Cyngor yn gallu rhoi cyngor mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, os bydd angen, ynglŷn â pha un a fyddai unrhyw gais yn dod o fewn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- 21.10.12 Mae'n bwysig cael perthynas waith agos rhwng Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet a chyfarwyddwr, penaethiaid gwasanaeth ac uwch swyddogion unrhyw adran sy'n ymwneud a'r portfolio perthnasol. Serch hynny, ni ddylid byth ganiatau i'r perthynasau hyn ddatblygu i fod mor agos, neu ymddangos felly, fel bod hyn yn taflu amheuaeth ar allu'r swyddog i ddelio'n ddiduedd efo aelodau eraill a grwpiau gwleidyddol eraill.
- 21.10.13 Rhaid cofio bod swyddogion yn atebol i'w pennaeth gwasanaeth ac, er y dylai swyddogion bob amser geisio cynorthwyo cadeirydd, arweinydd portffolio (neu yn wir unrhyw aelod), rhaid iddynt beidio, wrth wneud hynny, fentro y tu hwnt i derfynau pa bynnag awdurdod sydd wedi ei roi iddynt gan eu prif swyddog.

## **21.11 Cyfrinachedd**

- 21.11.1 Yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau, mae'n rhaid i Aelod beidio â datgelu gwybodaeth a roddwyd iddo ef/iddi hi yn gyfrinachol gan unrhyw un, na gwybodaeth a gafwyd y mae ef/hi yn credu ei bod o natur gyfrinachol, neu y mae'n rhesymol tybio y dylai ef/hi fod yn ymwybodol ei bod o natur gyfrinachol, ac eithrio:
- (a) pan fydd ganddo ef/ganddi hi ganiatâd unigolyn sydd ag awdurdod i'w roi;
  - (b) ei bod yn ofynnol iddo ef/iddi hi wneud hynny gan y gyfraith;
  - (c) bod y datgeliad yn cael ei wneud i drydydd parti at ddiben cael cyngor proffesiynol, cyn belled â bod y trydydd parti'n cytuno i beidio â datgelu'r wybodaeth i unrhyw unigolyn arall; neu
  - (ch) fod y datgeliad:

- (i) yn rhesymol ac er budd y cyhoedd; ac
- (ii) yn cael ei wneud gyda phob ewyllys da ac yn unol â gofynion rhesymol yr awdurdod.

21.11.2 Dylid trin papurau Pwyllgor cyfrinachol (papurau eithriedig) fel gwybodaeth gyfrinachol oni bai bod y Pwyllgor perthnasol yn penderfynu peidio ag eithrio'r wasg a'r cyhoedd. Atgoffir Aelodau mai'r Swyddog Monitro sy'n gwneud y penderfyniad cychwynnol ynglŷn â pha un a ddylid trin y papurau'n gyfrinachol ai peidio. Y Pwyllgor sydd i benderfynu pa un a ddylent aros yn gyfrinachol. Gall gwybodaeth arall fod yn gyfrinachol oherwydd y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i fudd i'r Cyngor neu'r cyhoedd. Gall gwybodaeth fod yn gyfrinachol hefyd oherwydd yr amgylchiadau y'i cafwyd ynddynt.

21.11.3 Bydd gwybodaeth a gohebiaeth am faterion preifat neu fusnes unigolyn yn gyfrinachol fel arfer.

21.11.4 Dylai Swyddogion egluro wrth Aelodau os ydynt yn rhoi gwybodaeth gyfrinachol iddynt. Os yw Aelod yn ansicr pa un a yw gwybodaeth yn gyfrinachol ai peidio, dylai ef/hi ofyn i'r Swyddog perthnasol, ond trin y wybodaeth yn gyfrinachol yn y cyfamser.

21.11.5 Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth am y Cyngor a roddir i Aelod gael ei defnyddio gan yr Aelod hwnnw/honno dim ond mewn cysylltiad â chyflawni ei (d)dyletswyddau'n briodol fel Aelod o'r Cyngor.

21.11.6 Os yw Aelod yn derbyn gwybodaeth gyfrinachol a'i fod/bod o'r farn y dylid ei datgelu i unigolyn arall oherwydd bod hynny'n rhesymol ac er budd y cyhoedd, yna mae'n rhaid iddo ef/iddi hi ymgynghori â'r Swyddog Monitro yn gyntaf ac ni chaiff ddatgelu'r wybodaeth heb ystyried unrhyw gyngor a roddwyd gan y Swyddog hwnnw/honno.

## **21.12 Darparu Gwasanaethau Cymorth i Aelodau**

21.12.1 Yr unig sail y gall y Cyngor ddarparu gwasanaethau cymorth (e.e. deunydd ysgrifennu, prosesu geiriau, technoleg gwybodaeth, argraffu, llun-gopiö, cludiant, ac ati) i Aelodau yn gyfreithlon yw er mwyn eu cynorthwyo i gyflawni eu rôl fel Aelodau o'r Cyngor. Felly, mae'n rhaid i wasanaethau cymorth o'r fath gael eu defnyddio ar gyfer busnes y Cyngor yn unig. Ni ddylid byth eu defnyddio mewn cysylltiad â gweithgarwch ymgyrchu neu wleidyddiaeth bleidiol nac at ddibenion personol.

### **21.12.2 Gohebiaeth**

Fel arfer dylai llythyrau swyddogol ar ran y Cyngor gael eu hanfon yn enw'r Cyflogai priodol, yn hytrach nag yn enw Aelod. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n berffaith dderbyniol anfon llythyr yn enw Aelod, er enghraifft, sylwadau i Weinidog o'r Llywodraeth neu lythyr mewn ymateb i lythyr ymholiad neu gwyno a anfonwyd yn uniongyrchol at yr Aelod hwnnw/honno. Ni ddylai llythyrau sydd, er enghraifft, yn creu rhwymedigaethau neu'n rhoi cyfarwyddiadau ar ran y Cyngor, byth gael eu hanfon yn enw Aelod.

21.12.3 Fel arfer, ni ddylai swyddog anfon copi o ohebiaeth rhwng aelod unigol a'r swyddog hwnnw/honno at unrhyw aelod arall. Pan fo achos neilltuol lle mae angen anfon copi o'r ohebiaeth at aelod arall, dylid egluro hyn yn glir wrth yr aelod gwreiddiol. Mewn geiriau eraill, ni ddylid defnyddio system o "gopiau distaw".

#### 21.12.4 Y Cyfryngau

Gall cyfathrebu â'r cyfryngau fod yn rhan bwysig o lwyth gwaith Aelod. Yn gyffredinol, mae Aelodau'n rhoi sylwadau a safbwyntiau tra bod Cyflogeion yn rhoi gwybodaeth ffeithiol. Os yw Aelod yn ansicr ynglŷn ag amgylchiadau mater penodol, dylai gysylltu â'r Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth priodol neu ofyn i Swyddfa'r Wasg wneud hynny.

### **21.13 Rôl y Cyngor fel Cyflogwr**

Wrth ymwneud â Swyddogion, dylai Aelodau gydnabod a rhoi ystyriaeth i rôl y Cyngor fel cyflogwr. Dylai Aelodau fod yn ymwybodol y gallai Swyddogion ddibynnu ar ymddygiad amhriodol Aelod mewn achos cyflogaeth yn erbyn y Cyngor.

### **21.14 Gweithgarwch Gwleidyddol**

21.14.1 Mae nifer o gyfyngiadau'n berthnasol i gyflogai sy'n dal swydd y dynodir ei bod "dan gyfyngiadau gwleidyddol" o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

21.14.2 I grynhoi, ni chaiff cyflogeion o'r fath:

- (a) fod yn Aelod Seneddol, Aelod o Senedd Ewrop neu Aelod o awdurdod lleol;
- (b) gweithredu fel asiant neu is-asiant etholiad ar gyfer unigolyn sy'n ymgeisio i gael ei (h)ethol yn Aelod o unrhyw un o'r cyrff y cyfeirir atynt yn (a);
- (c) bod yn Swyddog plaid wleidyddol neu unrhyw gangen plaid wleidyddol neu'n Aelod o unrhyw bwyllgorau neu is-bwyllgorau plaid neu gangen o'r fath, pe byddai ei (d)dyletswyddau'n debygol o fynnu ei fod/bod yn:
  - (i) cymryd rhan mewn rheolaeth gyffredinol y blaid neu'r gangen; neu
  - (ii) weithredu ar ran y blaid neu'r gangen wrth ymdrin ag unigolion heblaw am Aelodau o'r blaid;
- (ch) canfasio ar ran plaid wleidyddol neu unigolyn sy'n ymgeisio i gael ei (h)ethol i unrhyw un o'r cyrff y cyfeirir atynt yn 21.14.2.(a).
- (d) siarad â'r cyhoedd gyda'r bwriad ymddangosiadol o ennyn cefnogaeth y cyhoedd i blaid wleidyddol; a
- (dd) chyhoeddi unrhyw waith ysgrifenedig neu artistig y mae ef/hi wedi'i awduro (neu'n un o'i awduron) neu weithredu fel golygydd mewn perthynas â gwaith o'r fath, neu achosi, awdurdodi neu ganiatáu i unrhyw unigolyn arall gyhoeddi gwaith neu gasgliad o'r fath – os yw'n ymddangos bod y gwaith wedi'i fwriadu i ennyn cefnogaeth i blaid wleidyddol.



21.14.3 Bydd swyddogion yn darparu cyngor i bwyllgorau, fforymau aelodau ayb yn hytrach nag i grwpiau gwleidyddol. O bryd i'w gilydd fodd bynnag, gall fod yn anorfod cyngori grwp gwleidyddol. Mewn amgylchiadau o'r fath mae'n briodol i grwpiau pleidiol alw ar Gyflogeion i gynorthwyo a chyfrannu at eu hystyriaethau cyn belled â'u bod yn cynnal safbwynt sy'n wleidyddol ddiuedd. Gall cymorth gynnwys ystod o weithgareddau megis briffio Aelodau ynglŷn â'u rolau, e.e. cadeirydd neu lefarydd. Dylai grwpiau gwleidyddol ofyn i Gyflogeion roi gwybodaeth a chynghor sy'n ymwneud â busnes y Cyngor yn unig, ac nid materion sydd o natur gwleidyddiaeth pleidiol. Dylai cyngor o'r fath fod ar gael i'r holl grwpiau pleidiol ac nid dim ond i'r grŵp mwyafrifol. Mae'n bwysig bod amhleidioldeb gwleidyddol Cyflogeion yn cael ei gynnal, a bod Cyflogeion yn cynnal cyfrinachedd y grŵp.

21.14.4 Fel arfer, yr unig Gyflogeion a fydd yn mynychu cyfarfodydd grŵp fydd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth. Yn gyffredinol, byddant yn gadael y cyfarfod ar ôl rhoi eu cyflwyniad ac ateb cwestiynau. Dylid cofrestru gyda'r Swyddog Monitro pob achlysur pan yw swyddog (heblaw cymhorthydd gwleidyddol) yn mynychu cyfarfod o grwp gwleidyddol.

### **21.15 Torri'r Protocol**

- (a) Os yw Aelod o'r farn nad yw wedi cael ei drin/thrin â pharch neu gwrteisi priodol, caiff ef/hi godi'r mater gyda rheolwr llinell y Cyflogai. Os nad yw trafodaeth uniongyrchol gyda'r rheolwr yn datrys y gŵyn, dylid ei hatgyfeirio i'r Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am y cyflogai dan sylw. Gallai achos o Dorri'r Protocol arwain at gymryd camau disgyblu yn erbyn Cyflogai os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hynny.
- (b) Os yw cyflogai o'r farn bod Aelod wedi torri'r protocol, dylai ef/hi ymgynghori â'i l a fydd yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr os bydd angen. Mewn rhai amgylchiadau, gallai achos o dorri'r Protocol hefyd fod yn gyfystyr â thorri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau. Os yw'r achos yn ddigon difrifol, gallai fod cyfiawnhad dros ei atgyfeirio i'r Swyddog Monitro fel cwyn i'w hystyried dan y drefn ddatrys leol a all yn y pen draw arwan at wrandawriad gerbron y Pwyllgor Safonau. Bydd modd datrys llawer o gwynion yn anffurfiol. Bydd y Swyddog Monitro neu'r Prif Weithredwr yn gynorthwyo â'r broses hon os bydd angen.

### **21.16 Casgliad**

Trwy ddilyn arfer da a sicrhau cysylltiadau gwaith synhwyrol ac ymarferol rhwng aelodau a chyflogeion, gobeithir y gellir sefydlu un o gonglfeini awdurdod lleol llwyddiannus ac felly darparu gwasanaethau o werth uchel i bobl yr ardal. Cydddealltwriaeth, didwylledd a pharch yw'r elfennau pwysicaf sy'n diogelu uniondeb y cyngor, ei aelodau a'i gyflogeion.

## **Atodiad 2 – Cofnod Pwyllgor Gwasanaethau Democratiadd**

### **6. PROTOCOL AELODAU-SWYDDOG**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro, gan nodi fod y Protocol wedi ei sefydlu ers peth amser gan ddiffinio rôl a disgwyliadau wrth i aelodau gysylltu â swyddogion. Nododd ei fod yn amserol adolygu'r Protocol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei bwrpas ac er mwyn ei hyrwyddo. Byddai'r protocol yn cael ei gyflwyno hefyd i'r Pwyllgor Safonau cyn mynd i'r Cyngor Llawn er mwyn ei fabwysiadu fel newid i'r cyfansoddiad. Y prif newidiadau oedd cyfleu yn well yr egwyddor oedd tu ôl i gymal 29.9.4 (cyfeillgarwch) ac adlewyrchu canllawiau staff yng nghymal 21.10.

Mewn ymateb i gwestiwn am gyfeillgarwch a'i berthnasedd i 'ffrindiau' ar wefannau megis facebook, nododd y Swyddog monitro fod natur 'ffrindiau' ar wefannau o'r fath yn wahanol i berthynas a chyfeillgarwch yn y cigfyd. Bu iddo hefyd atgoffa'r Aelodau o fodolaeth y canllawiau cyfryngau cymdeithasol oedd wedi eu rhannu. Nododd yn ychwanegol wrth ymateb i gwestiwn, mewn achosion o gyfeillgarwch cyn etholiad Aelod y dylid ymdrin â'r mater fel unrhyw ddatganiad arall o fuddiant personol.

Gofynnwyd pa mor gryf oedd y protocol a beth oedd ei statws. Mewn ymateb nododd y Swyddog Monitro mai diffinio proses fewnol oedd y Protocol, a thra ei fod yn bosib i achosion fynd o flaen y Pwyllgor Safonau, nad oedd iddo sail statudol.

Sylwadau eraill yn codi o'r drafodaeth:

- Fod aelodau lleol yn aml ddim yn ymwybodol o'r hyn oedd y Cyngor yn ei wneud yn eu wardiau, a'i fod yn achosi pryder fod Aelodau yn derbyn y wybodaeth gan eu hetholwyr.
- Beth oedd y camau ddylai aelod eu dilyn os oedd yn derbyn cwyn o fwlio?

Mewn ymateb nododd y Swyddog Monitro mai at achosion o fwlio swyddogion gan Aelodau oedd y Protocol yn cyfeirio. Ychwanegodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod polisi bwlio mewnol yn bodoli er mwyn cyfarch a materion o'r fath.

**PENDERFYNWYD: derbyn yr adroddiad a gyrru sylwadau'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Safonau**

## Atodiad 3 – Cofnod Drafft Pwyllgor Safonau

### 7. PROTOCOL AR GYSYLLTIADAU AELODAU A SWYDDOGION

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i:-

- ystyried cyfres o newidiadau arfaethedig i'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau Swyddogion yn sgil dymuniad yr aelodau i adolygu'r Protocol ac ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd, penaethiaid adran ac uwch reolwyr y Cyngor; ac
- argymhell i'r Cyngor fabwysiadu'r Protocol.

Rhannwyd copïau o Atodiad 2 i'r adroddiad (sef eitem 6 o gofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd 12 Ebrill 2018) yn y cyfarfod gan i'r ddogfen gael ei hepgor o'r rhaglen drwy amryfusedd.

Canmolwyd y Protocol ar y sail ei fod yn rhoi arweiniad clir i aelodau a swyddogion o ran eu cysylltiadau â'i gilydd.

Gan gyfeirio at adran 21.6 (a) o'r protocol, sy'n cyfeirio at yr egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, nodwyd bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhestru 9 nodwedd warchoddedig o gymharu â'r 6 a restrwyd yma. Eglurodd y Swyddog Monitro fod y nodweddion yn unol â'r hyn sydd yn y Cod Ymddygiad, ond y byddai'n gwirio rhag ofn bod angen diwygio'r Cod.

**PENDERFYNWYD** argymhell i'r Cyngor llawn ar 4 Hydref fabwysiadu'r diwygiadau i'r Protocol Cysylltiadau Aelodau a Swyddogion, gyda'r ychwanegiad a ganlyn:-

- **Adran 21.9.3 – Bwlio neu harasio** – nodi bod modd cyfeirio at Bolisi Bwlio mewnol y Cyngor am ragor o wybodaeth.